Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddwyr ifanc

# Caerdydd

Arolygiaeth Prawf EM, Gorffennaf 2020

## Cydnabyddiaeth

Cafodd yr arolygiad hwn ei gyflawni yn Ionawr 2020 a'i arwain gan Arolygydd EM Mike Lane, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr ar draws yr Arolygiaeth. Cynorthwywyd Arolygiaeth Prawf EM gan y cyd-arolygwyr canlynol: Andy Reed (HMICFRS); Bobbie Jones (Arolygiaeth Gofal Cymru); Alun Connick a Sion Peters-Flynn (Estyn); Tom Stephenson (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) a Tony Bunday (CQC). Hoffem ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosib.

## Rôl Prif Arolygydd Prawf EM

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol ar wasanaethau prawf a throseddwyr ifanc Cymru a Lloegr. Adroddwn ar ba mor effeithiol yw gwasanaethau prawf a throseddwyr ifanc a roddir i oedolion a phlant.

Arolygwn y gwasanaethau hyn a chyhoeddwn adroddiadau arolygu. Tynnwn sylw at ymarfer da a gwael a defnyddiwn ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau ansawdd da. Rydym yn annibynnol o'r llywodraeth a siaradwn yn annibynnol.

Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ail-ddefnyddio’r wybodaeth yma (ac eithrio’r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Mae'r drwydded yn [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence) neu e-bost [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle’r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy’n dal yr hawlfraint honno.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn:

[https://llyw.cymru/gweithwyr-iechyd-proffesiynol-coronafeirws?_ga=2.124871178.1041273511.1591024744-1482464777.1581517545](https://llyw.cymru/gweithwyr-iechyd-proffesiynol-coronafeirws?_ga=2.124871178.1041273511.1591024744-1482464777.1581517545)

Cyhoeddwyd gan:

Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter [@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

# Cynnwys

**Rhagair** .......... **4**
**Sgoriau** .......... **5**
**Crynodeb gweithredol** .......... **6**
**Argymhellion** .......... **11**
**Cefndir** .......... **13**
**Ffeithiau cyd-destun** .......... **14**
**1. Darparu sefydliadol** .......... **16**
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .......... 18
1.2. Staff .......... 22
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .......... 25
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .......... 28
**2. Dedfrydau gan y llys** .......... **31**
2.1. Asesu .......... 32
2.2. Cynllunio .......... 34
2.3. Gweithredu a darparu .......... 35
2.4. Adolygu .......... 36
**3. Dedfrydau allan-o-lys** .......... **38**
3.1. Asesu .......... 40
3.2. Cynllunio .......... 41
3.3. Gweithredu a darparu .......... 43
3.4. Gweithio ar y cyd .......... 44
**Atodiad 1: Methodoleg** .......... **46**
**Atodiad 2: Canlyniadau'r arolygiad** .......... **48**
**.Atodiad 3: Geirfa** .......... **52**

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o raglen pedair blynedd o arolygu gwasanaethau troseddwyr ifanc (YOS). Arolygwyd a sgoriwyd YOS Caerdydd mewn tri maes: y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth ar lefel sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a ddedfrydwyd gan y llysoedd, ac ansawdd y gwaith dedfrydau allan-o-lys. Sgôr cyffredinol YOS Caerdydd oedd 'Anfoddhaol'.

Nid oedd llywodraethu ac arweinyddiaeth, staffio, partneriaeth a gwasanaethau, a gwybodaeth a chyfleusterau, wedi cwrdd â safon dderbyniol. Mae gennym felly bryderon difrifol am ba mor effeithiol yw'r darparu sefydliadol yn YOS Caerdydd.

Oherwydd strwythur y gwasanaeth YOS, ni allai ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Prin oedd y ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu plant sy'n cael eu goruchwylio gan yr YOS. Nid oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd ac ni allai plant gael mynediad at rai gwasanaethau'n brydlon, neu ddim o gwbl. Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn effeithiol gyda dal yr YOS na'i bartneriaid i gyfrif ac ni osodwyd cyfeiriad strategol na blaenoriaethau i'r YOS. Nid oedd camau lliniaru na gwelliannau y ceisiodd arweinwyr eu cyflwyno wedi cael digon o effaith.

Adlewyrchwyd y canlyniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth siomedig yn ein sgoriau ar gyfer gwaith dedfrydau allan-o-lys ac ôl-lys.  Ar draws y bwrdd, roedd ansawdd asesiadau a chynllunio, gweithrediad a darparu gwasanaethau, ac adolygu cynnydd achosion, yn wael.

Yn rhannol, roedd ansawdd gwael yr ymarfer wedi'i achosi gan oruchwyliaeth aneffeithiol o achosion gan reolwyr ac nid oedd digon o reolwyr gweithredol yn yr YOS i roi cyfeiriad a chymorth cyson i reolwyr achos a staff eraill. Mae angen i'r YOS gynyddu ei gapasiti rheoli i sicrhau bod y gwaith yn cael ei oruchwylio'n drylwyr a rheolaidd er mwyn arwain at ganlyniadau gwell i'r plant dan ei oruchwyliaeth.

Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn yn hynod siomedig. Fodd bynnag, mae'r camau ers yr arolygiad gan uwch-reolwyr yng Nghaerdydd yn ein hannog i gredu eu bod am weithredu ar ein hargymhellion i wella'r gwasanaeth, ond mae llawer iawn o waith i'w wneud. Byddwn ni, a'n harolygwyr partner, yn monitro eu cynnydd yn ofalus i sicrhau eu bod yn gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf

## Sgoriau

| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerdydd | | Sgôr | 0/36 |
|---|---|---|---|
| **Sgôr cyffredinol** | | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| **1.** | **Darparu sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 1.2 | Staff | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| **2.** | **Dedfrydau gan y llys** | | |
| | Asesu | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 2.2 | Cynllunio | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 2.3 | Gweithredu a darparu | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 2.4 | Adolygu | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| **3.** | **Dedfrydau allan-o-lys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 3.2 | Cynllunio | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Anfoddhaol** | 🔴 |
| 3.4 | Gweithio ar y cyd | **Anfoddhaol** | 🔴 |

# Crynodeb gweithredol

Ar y cyfan, mae YOS Caerdydd wedi'i sgorio fel: **Anfoddhaol.** Penderfynwyd ar y sgôr hwn drwy arolygu'r YOS mewn tri maes gwaith a elwir yn 'barthau'. Arolygwn yn erbyn 12 o 'safonau' sy'n gyffredin i'r 'parthau' hyn. Mae'r safonau'n seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig sydd, yn eu tro, yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad. Dyluniwyd y safonau i annog gwelliannau yn ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n troseddu.[1] Mae rheolau sgorio swyddogol yn creu'r sgôr YOS cyffredinol.[2] Disgrifir isod y canfyddiadau a'r sgoriau yn y parthau hynny o ganlyniad.

## 1. Darparu sefydliadol

Rydym wedi sgorio darparu sefydliadol fel 'Anfoddhaol'. Pan gynhaliwyd yr arolygiad hwn ym mis Ionawr 2020, roedd trefniadau'r YOS ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth, staffio, partneriaethau a gwasanaethau, a gwybodaeth a chyfleusterau, i gyd wedi methu â chwrdd â'n safonau gofynnol.

Roedd y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer yr YOS yn aneglur. Roedd arweinyddiaeth a Bwrdd Rheoli'r YOS wedi comisiynu adolygiad o brosesau a chynhaliwyd adolygiad o hunan-effeithiolrwydd yn haf 2019, ond ychydig iawn o dystiolaeth o effaith y gwaith hwn a welsom. Nid oedd staff a rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol o'r datblygiadau, neu ddim yn eu deall. Nid oedd system effeithiol ar gyfer adnabod, cofnodi na rheoli problemau a risgiau, a phrin iawn oedd y dystiolaeth bod gwersi a thystiolaeth o arolygiadau ac archwiliadau blaenorol wedi eu defnyddio i annog gwelliannau. Nid oedd camau lliniaru na gwelliannau y ceisiodd arweinwyr eu cyflwyno wedi cael digon o effaith. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr yn gwneud digon i wella'r ddarpariaeth wael o wasanaethau.

Oherwydd strwythur y gwasanaeth YOS, ni allai ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Nid oedd fframweithiau a chanllawiau wedi datblygu'n ddigon da. Roedd rhai polisïau a gweithdrefnau wedi dyddio; diffyg capasiti rheoli boddhaol; diffyg systemau a phrosesau effeithiol i sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio'r risg o niwed i eraill, a diogelwch a lles; roedd y cynefino i staff a'r oruchwyliaeth o staff o ansawdd gwael; ac roedd bylchau yn yr hyfforddiant.

Nid oedd dealltwriaeth o anghenion plant o fewn y cohort YOS cymhleth yn ddigonol. Nid oedd proffilio'n ddigon soffistigedig ac ni ddefnyddiwyd gwybodaeth yn foddhaol. Nid oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd ac ni allai plant gael mynediad at rai gwasanaethau'n brydlon, neu ddim o gwbl.

Cafodd Rheolwr y gwasanaeth YOS a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli eu cyfweld. Cawsom gyfarfodydd ag aelodau eraill o'r Bwrdd, staff a rhanddeiliaid allweddol. Roedd arolygwyr o'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol yn rhan o'n tîm arolygu. Cafodd materion yn codi o arolygu achosion eu hôl-ddilyn a holwyd uwch-arweinwyr a staff ar draws partneriaeth yr YOS.

[1] Mae safonau Arolygiaeth Prawf EM ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

[2] Mae pob un o'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa rhwng 0-3 lle mae 'Anfoddhaol' = 0; 'Angen Gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Gwych' = 3. Drwy ychwanegu'r sgoriau hyn rhoddir cyfanswm sgôr sy'n amrywio rhwng ystod o 0–36, wedi'i fandio i roi'r sgôr cyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Anfoddhaol', 7–18 = 'Angen Gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Gwych'.

Dyma ein canfyddiadau allweddol o'r darparu sefydliadol:

- Roedd presenoldeb da gan asiantaethau partner yng nghyfarfodydd Bwrdd Rheoli'r YOS.
- Roedd yr YOS wedi'i wasanaethu'n dda gan swyddog gwybodaeth dynodedig sy'n gallu casglu ynghyd amrywiol adroddiadau perfformiad a monitro o'r system rheoli achosion.
- Roedd staff yn gweithio'n galed a gyda chymhelliad da i gwrdd ag anghenion y plant dan eu goruchwyliaeth, er y diffyg prosesau, strwythurau a rheolaeth strategol i gefnogi eu gwaith.
- Mae Prif Swyddog Gweithredol yr awdurdod lleol wedi dweud y bydd yn darparu adnoddau i sicrhau cynnydd gyda gweithredu ein hargymhellion.

Ond:

- Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau, nid oeddent yn ddigon uchel eu swyddi ac nid oeddent yn eiriol yn effeithiol dros blant cohort yr YOS.
- Er bod presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dda, nid oedd aelodau'r Bwrdd yn effeithiol gyda dal yr YOS na'i bartneriaid i gyfrif ac ni osodwyd cyfeiriad strategol na blaenoriaethau i'r YOS.
- Roedd rhai pryderon am gyfathrebu rhwng asiantaethau ar draws y bartneriaeth o ran eu harferion diogelu a gwarchod y cyhoedd, mewn tri achos yn benodol, a bu'n rhaid i Arolygiaeth Prawf EM gyflwyno rhybudd sefydliadol.
- Nid oedd Bwrdd Rheoli'r YOS wedi gweithredu'n ddioed a digonol ar argymhellion o arolygiad ac archwiliadau blaenorol.
- Roedd bylchau difrifol mewn darparu gwasanaeth, yn enwedig y gwasanaethau iechyd ac addysg.
- Nid oedd polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau wedi eu diweddaru fel nad oedd gan staff fframwaith effeithiol ar gyfer deall a darparu ymarfer da.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o achosion yn wael, ac nid oedd gan uwch-arweinwyr weledd clir o'r ymarfer.
- Ni ddefnyddiwyd gwybodaeth am berfformiad i annog gwelliannau, ac roedd y ffaith nad oedd canfyddiadau archwiliadau allanol a mewnol wedi eu cyfathrebu'n iawn i staff a rhanddeiliaid yn dystiolaeth o hyn.
- Roedd cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant yn anfoddhaol ac nid oedd cynefino digonol i staff newydd.

## 2. Dedfrydau gan y llys

Edrychodd yr arolygiad ar 16 o ddedfrydau cymunedol a dwy ddedfryd dan glo a reolir gan y YOS. Cynhaliwyd hefyd ddeunaw o gyfweliadau gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Edrychodd yr arolygiad ar ansawdd yr asesu; cynllunio; gweithredu a darparu; ac adolygu. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn o ran pa waith a wnaed i wella ymatal rhag troseddu, ac ar ddiogelwch a lles y plentyn. Yn y 18 achos lle'r

oedd ffactorau'n ymwneud â niwed,[3] arolygwyd hefyd pa waith a wnaed i gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn y 18 achos lle'r oedd ffactorau'n ymwneud â diogelwch a lles, fe wnaethom hefyd edrych ar ba waith oedd yn cael ei wneud i gadw'r plentyn yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar bob elfen o oruchwyliaeth pob achos fod yn uwch na throthwy penodol iddo gael ei sgorio'n foddhaol.

Roedd llai na 50% o'r achosion yn bodloni ein holl ofynion o ran asesu, cynllunio, darparu a gweithredu, ac adolygu achosion. O ganlyniad ein barn am yr elfennau gwaith hyn oedd eu bod yn 'anfoddhaol'. O bryder arbennig oedd ansawdd yr asesu ar gyfer ymatal rhag troseddu, a diogelwch a lles (33%) a natur anfoddhaol y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles a'r risg o achosi niwed i eraill (dim ond 11% am y naill a 17% am y llall). Roedd adolygu achosion hefyd yn eithriadol wael; dim ond 33% o'r adolygiadau a gyrhaeddodd ein safonau ar ymatal rhag troseddu, a 22% ar ddiogelwch a lles. Roedd ansawdd adolygu'r risg o niwed hefyd yn wael iawn, gyda dim ond 14% yn cyrraedd ein gofynion ar gyfer y safon hon.

O ran ansawdd gweithredu a darparu cynlluniau goruchwylio, roedd 75% o'r achosion a arolygwyd yn cyrraedd ein safonau ar waith ymatal rhag troseddu. Fodd bynnag, dim ond 44% a gyrhaeddodd y safon ar waith diogelwch a lles a dim ond 39% a gyrhaeddodd y safon ar y risg o niwed. Oherwydd y diffygion gyda gweithredu a darparu gwaith diogelu a gwarchod y cyhoedd, barnodd y panel sgorio nad oedd unrhyw seiliau dros ymarfer disgresiwn proffesiynol ynghylch y sgôr cyffredinol, ac arhosodd yn 'Anfoddhaol'.

Mae ein canfyddiadau allweddol o ddedfrydau gan y llys fel a ganlyn:

- Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn cynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu.
- Roedd staff yn canolbwyntio ar gynnal perthynas weithio effeithiol gyda'r plentyn a'r rhieni / gofalwyr.
- Roedd y cynllunio'n gymesur â chanlyniad yr achos llys, ac roedd yn bosib darparu ymyriadau o fewn amserlen briodo.
- Pan ddarparwyd gwasanaethau, y rhai oedd fwyaf tebygol o helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu oeddent. Roedd staff yn talu sylw digonol i drefn y gwaith a'r amserlen briodol.

Ond:

- Roedd ansawdd yr asesu i sicrhau bod plant yn ymatal rhag troseddu, eu diogelwch a'u lles a'r risg o achosi niwed i eraill, yn anfoddhaol.
- Roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn wael.
- Roedd asesu a chynllunio i ateb anghenion a dymuniadau dioddefwyr troseddau'n anfoddhaol.
- Roedd gweithredu a darparu gwaith ar ddiogelu a gwarchod y cyhoedd yn anfoddhaol.
- Roedd diffygion difrifol ym mhob agwedd ar waith adolygu gan reolwyr achos.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o achosion ôl-lys yn eithriadol wael.

[3] Mae nifer yr achosion a ddyfynnwn yma sy'n ymwneud â niwed, neu ddiogelwch a lles, yn seiliedig ar farn yr arolygwyr yn hytrach na barn yr YOS.

- Roedd asesu a chynllunio i ateb anghenion a dymuniadau dioddefwyr troseddau'n anfoddhaol.

## 3. Dedfrydau allan-o-lys

Edrychodd yr arolygiad ar 11 achos a dderbyniodd ddedfryd allan-o-lys (OOCD) oedd dan reolaeth yr YOS. Roeddent yn cynnwys tri rhybuddiad ieuenctid amodol, dau rybuddiad ieuenctid a chwe gorchymyn penderfyniad cymunedol. Cafodd y rheolwyr achos eu cyfweld mewn 10 o'r achosion.

Edrychodd yr arolygiad ar ansawdd yr asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu gwasanaethau. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn o ran pa waith a wnaed i wella ymatal rhag troseddu. Ar gyfer y saith achos lle'r oedd ffactorau'n ymwneud â niwed[4], arolygwyd hefyd pa waith a wnaed i gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn yr wyth achos lle'r oedd ffactorau perthnasol, fe wnaethom hefyd edrych ar ba waith a wnaed i sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Edrychodd yr arolygiad hefyd ar ansawdd y gwaith ar y cyd â'r heddlu lleol. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ym mhob elfen o oruchwyliaeth pob achos fod yn uwch na throthwy penodol iddo gael ei sgorio'n foddhaol.

Yn y gwasanaeth YOS hwn, roedd llai na 50% o'r achosion yn bodloni ein holl ofynion o ran asesu, cynllunio, darparu a gweithredu. O ganlyniad ein barn am yr elfennau gwaith hyn oedd eu bod yn 'anfoddhaol'. Er bod asesu a chynllunio i wella ymatal rhag troseddu'n gryf (82% am y naill a 73% am y llall), nid oedd hyn yn wir am ddiogelwch a lles na'r risg o niwed i eraill. Roedd asesu'n cyrraedd ein safonau mewn dim ond 18% o'r achosion ar ddiogelwch a lles, a dim ond 27% oedd yn foddhaol ar gyfer risg o niwed. Roedd diffygion difrifol yn ansawdd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles, gyda dim o'r wyth achos perthnasol yn cyrraedd ein safonau gofynnol. O ran ansawdd gweithredu a darparu cynlluniau i weithio â'r plant hyn, roedd gwaith i wella ymatal rhag troseddu, diogelu a gwarchod y cyhoedd yn anfoddhaol gan gyrraedd ein safonau dim ond mewn 45%, 14% a 29% o'r achosion yn yr un drefn.

O ran gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill, er bod dau o bob tri achos yn cyrraedd y safon ar waith ar y cyd â'r heddlu, dim ond 45% o'r achosion oedd yn cyrraedd ein safonau o ran argymhellion bod y gwasanaeth yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli i'r plentyn. Dangosodd y dystiolaeth ym 'mharth un' fod diffygion gyda darparu'r panel OOCD a diffyg fframwaith, gweithdrefnau a chanllawiau addas i gynorthwyo gwaith da gyda'r math hwn o achos. Felly barnodd yr arolygwyr fod yr elfen waith hon yn 'Anfoddhaol'.

Mae ein canfyddiadau allweddol o ddedfrydau allan-o-lys fel a ganlyn:

- Roedd asesu ymatal rhag troseddu mewn achosion OOCD yn wych.
- Roedd cynllunio ar gyfer ymatal rhag troseddu'n dda.
- Roedd staff yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas weithio effeithiol gyda'r plentyn a'r rhieni / gofalwyr.
- Roedd asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn ystyried aeddfedrwydd, capasiti i newid ac amrywiaeth y plentyn, ac yn gymesur â'r math o ddedfryd.

Ond:

[4] Wele droednodyn 3.

- Roedd diffygion difrifol yn ansawdd yr asesu a'r cynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd gweithredu a darparu er mwyn gwella ymatal rhag troseddu, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn anfoddhaol.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o ddedfrydau OOCD yn wael.
- Nid oedd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr YOS a Media Academy Cardiff; o'r herwydd, nid oedd yr YOS yn monitro a gwerthuso'n effeithiol y trefniadau a gomisiynwyd i ddarparu rhai dedfrydau OOCD.
- Roedd angen datblygu'r fframwaith ar gyfer darparu dedfrydau OOCD ac roedd diffyg protocolau a chanllawiau i randdeiliaid yn y bartneriaeth.
- Roedd arolygwyr wedi arsylwi'r panel a chanfod ei fod yn adolygu llawer o achosion lle'r oedd y penderfyniad OOCD eisoes wedi'i wneud, ac yn yr achosion hyn ei fod felly'n fwy o fforwm rheoli achosion na'n gorff gwneud penderfyniadau fel y dylai fod.
- Nid oedd rhesymeg y penderfyniadau ar y cyd mewn achosion OOCD yn cael ei chofnodi'n glir.

# Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, gwnawn 14 o argymhellion a fyddai yn ein barn ni, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddwyr ifanc yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn gwella bywydau plant sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau troseddwyr ifanc, ac yn amddiffyn y cyhoedd yn well.

**Dylai Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerdydd:**

1. sicrhau ei fod yn gosod cyfeiriad strategol i'r YOS drwy weledigaeth glir a'i chyfathrebu i staff a rhanddeiliaid allweddol

2. adolygu ei aelodaeth, rôl a'i bwrpas i sicrhau bod ei gynrychiolwyr yn ddigon uchel eu swyddi i wneud penderfyniadau ac ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol i'r YOS

3. sicrhau bod holl aelodau'r bartneriaeth YOS ac asiantaethau partner eraill yn darparu cymorth a gwasanaeth priodol

4. datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr aelodau o'u rôl fel aelodau'r Bwrdd a gwaith y gwasanaeth, a herio partneriaid yn effeithiol

5. rhoi'r adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i'r tîm rheoli i redeg y gwasanaeth yn effeithiol

6. datblygu cynlluniau cadarn i annog gwella gwasanaethau mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau ac arolygiadau, a'u cyfathrebu'n fwy effeithiol i staff.

**Dylai Rheolwr YOS Caerdydd:**

7. sicrhau bod yr holl staff yn derbyn cynefino, hyfforddiant a goruchwyliaeth priodol ac yn cael eu goruchwylio'n briodol gan reolwyr

8. sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth, protocolau, fframweithiau perfformiad a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer gwaith dedfrydau allan-o-lys

9. adolygu'r strwythur rheoli, y cyfathrebu a'r llinellau atebolrwydd i sicrhau bod ansawdd y gwaith diogelu a gwarchod y cyhoedd yn gwella

10. datblygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau i gynorthwyo'r holl staff i ddarparu gwaith o ansawdd

11. cadw trosolwg ar yr holl achosion YOS lle mae unrhyw fater diogelu a gwarchod y cyhoedd yn codi, gan sicrhau atgyfeirio priodol a bod gwaith ar y cyd yn digwydd fel bo angen.

**Dylai gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol:**

12. datblygu strategaethau effeithiol i annog plant sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau yn iaith eu dewis, ac i ddefnyddio, datblygu a chydnabod gwerth yr iaith fel sgil ar gyfer cyflogaeth.

## Dylai Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro:

13. sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl, corfforol, rhywiol ac emosiynol prydlon i blant YOS.

## Dylai Heddlu De Cymru:

14. sicrhau bod ffurflenni Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (PPN) ar blant YOS yn cael eu llenwi'n gyson gan blismyn rheng flaen.

# Cefndir

Mae Timau Troseddwyr Ifanc (timau YOT) yn goruchwylio pobl ifanc 10-18 oed sydd wedi eu dedfrydu gan lys, neu a ddaeth i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol ond sydd heb gael eu cyhuddo – ac yn hytrach a dderbyniodd ddedfryd allan-o-lys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r ddwy elfen hon o wasanaethau troseddwyr ifanc.

Mae timau YOT yn bartneriaethau statudol aml-ddisgyblaethol sy'n gweithio i ateb anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gynnwys staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r gwasanaethau iechyd lleol.[5] Lleolir y rhan fwyaf o dimau YOT mewn awdurdodau lleol; ond gall hyn amrywio.

Mae gwaith timau YOT yn cael ei lywodraethu a'i dywys gan wahanol ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel y Safonau Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol) neu'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (e.e. canllawiau Trefniadau Aml-asiantaethol Gwarchod y Cyhoedd). Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) yn rhoi peth cyllid i dimau YOT. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn rhoi canllawiau iddynt am sut i wneud pethau.

Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Gwelodd hefyd y twf mwyaf mewn poblogaeth yng Nghymru yn y degawd diwethaf gyda'r rhagolygon y bydd yn tyfu'n gynt nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Dros yr ugain mlynedd nesaf, mewn niferoedd absoliwt, disgwylir i boblogaeth Caerdydd dyfu mwy na gweddill Cymru gyda'i gilydd.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth o dros 360,000 ac mae 30,714 yn 10-17 oed (8.4% o'r cyfanswm). Rhwng 2006 a 2016, tyfodd poblogaeth yr awdurdod o 11.6%. Disgwylir i'r duedd dwf hon barhau gyda rhagolygon twf o dros 20% rhwng 2016 a 2036. Caerdydd hefyd, o bell, yw'r awdurdod lleol mwyaf ethnig amrywiol yng Nghymru: daw tua un o bob pump o'i boblogaeth o leiafrif ethnig a siaredir dros gant o ieithoedd yn y ddinas. Daw traean o'r holl blant ysgol o leiafrif ethnig. Y gyfradd ddiweithdra bresennol (6.1%) yw'r ail uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na'r cyfraddau drwy Gymru a thrwy Brydain.

Mae Caerdydd yn un o bum dinas yn y DU sy'n datblygu, mewn partneriaeth ag UNICEF UK, fel 'dinas gyfeillgar i blant'. Mae hyn yn golygu bod ganddi ddyheadau i roi hawliau plant wrth galon ei pholisïau a'i strategaethau, cynnwys plant mewn penderfyniadau ac ymrwymo i ddatrys unrhyw rwystrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

Lleolir YOS Caerdydd yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaeth Plant yr awdurdod lleol. O'r cohort YOS, mae 88% yn wrywaidd, 78% yn 14+ oed a 24% yn dod o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2018/19, y math mwyaf cyffredin o drosedd yn llwythi achosion YOS Caerdydd oedd trais yn erbyn y person, yna dwyn a derbyn nwyddau wedi eu dwyn. Nododd y bartneriaeth YOS fod troseddau cyffuriau hefyd wedi cynyddu. Mae cyfraddau trosedd cyntaf ac ail-droseddu ar gyfer pobl ifanc yng Nghaerdydd yn uwch na'r cyfartalog ar draws Cymru a Lloegr.

---

[5] Disgrifir y trefniadau ar gyfer timau YOT lleol a gweithio mewn partneriaeth yn *Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998*.

## Ffeithiau cyd-destun

| | |
|---|---|
| **241** | Cyfradd troseddwyr tro cyntaf am bob 100,000 yng Nghaerdydd[6] |
| **197** | Cyfradd troseddwyr tro cyntaf am bob 100,000 drwy Gymru |
| **222** | Cyfradd troseddwyr tro cyntaf am bob 100,000 drwy Gymru a Lloegr |
| **54.4%** | Cyfradd ail-droseddu yng Nghaerdydd[7] |
| **38.4%** | Cyfradd ail-droseddu yng Nghymru a Lloegr |

**Gwybodaeth poblogaeth[8]**

| | |
|---|---|
| **364,248** | Cyfanswm poblogaeth Caerdydd |
| **30,714** | Cyfanswm poblogaeth pobl ifanc (10-17 oed) yng Nghaerdydd |
| **6,220** | Cyfanswm poblogaeth pobl ifanc du a lleiafrifol ethnig yng Nghaerdydd (Cyfrifiad 2011) |

**Gwybodaeth am y llwyth achosion[9]**

| Oed | 10–14 | 15–17 |
|---|---|---|
| YOS Caerdydd | 22% | 78% |
| Cyfartalog cenedlaethol | 23% | 77% |

| Hil / tarddiad ethnig | Gwyn | Du a lleiaf'oedd ethnig | Anhysbys |
|---|---|---|---|
| YOS Caerdydd | 69% | 24% | 7% |
| Cyfartalog cenedlaethol | 70% | 26% | 4% |

| Rhywedd | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| YOS Caerdydd | 88% | 12% |
| Cyfartalog cenedlaethol | 85% | 15% |

[6] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019). *First Time Entrants, April to March 2019.*

[7] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Proven reoffending statistics, April 2017 to March 2018.*

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). *UK population estimates, mid-2018.*

[9] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2020). *Youth Justice annual statistics: 2018 to 2019.*

**Data ychwanegol am y llwyth achosion**[10]

| | |
|---|---|
| **119** | **Cyfanswm y llwyth achosion presennol sydd yn:** |
| **52 (44%)** | Dedfrydau llys |
| **67 (56%)** | Dedfrydau allan-o-lys |

**O'r 52 o ddedfrydau gan y l**

**lys**

| | |
|---|---|
| **46 (88%)** | Cyfanswm achosion presennol ar ddedfrydau cymunedol |
| **4 (8%)** | Cyfanswm achosion presennol dan glo |
| **2 (4%)** | Cyfanswm achosion presennol ar drwydded |

**O'r 67 o ddedfrydau allan-o-lys**

| | |
|---|---|
| **5 (7%)** | Cyfanswm achosion presennol gyda rhybuddiad ieuenctid |
| **10 (15%)** | Cyfanswm achosion presennol gyda rhybuddiad ieuenctid amodol |
| **52 (78%)** | Cyfanswm achosion presennol: gorchymyn penderfyniad cymunedol, neu ddedfryd allan-o-lys arall |

**Statws addysg ac amddiffyn plant y llwyth achosion**

| | |
|---|---|
| **7%** | Llwyth achosion 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sy'n breswyl yn ardal y tîm YOT |
| **2%** | Llwyth achosion 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a leolir y tu allan i ardal y tîm YOT |
| **5%** | Llwyth achosion gyda chynllun amddiffyn plant |
| **19%** | Llwyth achosion gyda chynllun plentyn mewn angen |
| **5.35%** | Llwyth achosion 16 oed neu iau nad ydynt mewn ysgol / uned cyfeirio disgyblion / trefniant addysg arall |
| **21.40%** | Llwyth achosion 16 oed neu iau mewn uned cyfeirio disgyblion neu drefniant addysg arall |
| **17%** | Llwyth achosion 17+ oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth |

**Plant cohort y gwasanaeth YOS gyda dedfrydau gan y llys:**

| Mathau o drosedd[11] | % |
|---|---|
| Trais yn erbyn y person | 50% |
| Bwrgleriaeth | 11% |
| Lladrata | 6% |
| Dwyn a derbyn nwyddau wedi eu dwyn | 17% |
| Troseddau modurol llys ynadon | 6% |
| Troseddau llys ynadon eraill | 11% |

[10] Data wedi'i gyflenwi gan y tîm YOT, yn adlewyrchu'r llwyth achosion pan gyhoeddwyd yr arolygiad.

[11] Data o'r achosion a aseswyd yn ystod yr arolygiad hwn.

# 1. Darparu sefydliadol

Roedd y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer yr YOS yn aneglur. Roedd arweinyddiaeth a Bwrdd Rheoli'r YOS wedi comisiynu adolygiad o brosesau a chynhaliwyd adolygiad o hunan-effeithiolrwydd yn haf 2019, ond ychydig iawn o dystiolaeth o effaith y gwaith hwn a welsom. Nid oedd staff a rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol o'r datblygiadau, neu ddim yn eu deall. Nid oedd system effeithiol o adnabod, cofnodi na rheoli risg a phroblemau'n codi. Nid oedd camau lliniaru na gwelliannau y ceisiodd arweinwyr eu cyflwyno wedi cael digon o effaith. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr yn gwneud digon i wella'r ddarpariaeth wael o wasanaethau.

Nid oedd unrhyw bolisi uwchgyfeirio clir na phroses i ddileu rhwystrau i weithio'n effeithiol ar y cyd ar lefel weithredol ac uwch. Pur anaml oedd gwersi i'w dysgu ac arferion da'n cael eu hadnabod drwy adborth gan randdeiliaid eraill, a dim digon o drafod perfformiad gyda phartneriaid a darparwyr eraill. Ychydig iawn o ddefnydd a wneir o dystiolaeth a dysgu i annog gwelliannau, ac ni chymerir camau i wella gwasanaethau pan fo angen eu cymryd.

Mae'r Bwrdd Rheoli'n cynnwys yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol ond mae gormod o aelodau ac nid yw'r rhan fwyaf yn ddigon uchel eu swydd neu awdurdod i wneud penderfyniadau neu ymrwymo adnoddau. Roedd cyfranogiad a chyfraniad pob un o'r partneriaid yn anghyson a heb ddigon o ffocws ar fusnes yr YOS. Nid oedd partneriaid yn deall na'n cydnabod cyfrifoldebau statudol eu hasiantaethau a'r cyfraniad y dylent ei wneud i'r YOS.

Oherwydd strwythur y gwasanaeth YOS, ni allai ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Nid oedd fframweithiau a chanllawiau wedi datblygu'n ddigon da. Roedd rhai polisïau a gweithdrefnau wedi dyddio; diffyg capasiti rheoli boddhaol; diffyg systemau a phrosesau effeithiol i sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio'r risg o niwed i eraill a diogelwch a lles. Roedd y trefniadau ar gyfer cynefino a hyfforddi staff yn wael, a hefyd ansawdd eu goruchwylio.

Nid oedd gan y gweithlu'r ystod o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, ac nid oedd hyn yn cael sylw. Roedd lefelau isel o foddhad a morâl ymhlith y staff ynghyd â lefelau uchel o orbryderu ac ansicrwydd. Mae'r diwylliant yn un lle nad yw'r staff wedi eu harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau na'u dal yn atebol am eu gwaith. Nid oedd cyfarfodydd rheolaidd â'r staff ac roedd diffyg goruchwyliaeth, arweiniad a chymorth priodol.

Prin oedd y ddealltwriaeth o anghenion y plant sy'n cael eu goruchwylio gan yr YOS. Nid oedd proffilio'n ddigon soffistigedig ac ni ddefnyddiwyd gwybodaeth yn foddhaol. Nid oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd ac ni allai plant gael mynediad at rai gwasanaethau'n brydlon, neu ddim o gwbl. Ychydig iawn o sicrhau ansawdd neu werthuso gwasanaethau oedd yn digwydd. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr a rheolwyr yn monitro ansawdd gwasanaethau'n ddigonol na'n ceisio ateb diffygion neu ddirywiad mewn gwasanaethau neu yng nghanlyniadau plant sy'n hysbys i'r YOS.

**Cryfderau:**

- Roedd presenoldeb da gan asiantaethau partner yng nghyfarfodydd Bwrdd Rheoli'r YOS.
- Roedd yr YOS wedi'i wasanaethu'n dda gan swyddog gwybodaeth dynodedig sy'n gallu casglu ynghyd amrywiol adroddiadau perfformiad a monitro o'r system rheoli achosion.
- Roedd staff yn gweithio'n galed a gyda chymhelliad da i gwrdd ag anghenion y plant dan eu goruchwyliaeth, er y diffyg prosesau, strwythurau a rheolaeth strategol i gefnogi eu gwaith.
- Mae Prif Swyddog Gweithredol yr awdurdod lleol wedi dweud y bydd yn darparu adnoddau i sicrhau cynnydd gyda gweithredu ein hargymhellion.

**Meysydd lle mae angen gwella:**

- Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau, nid oeddent yn ddigon uchel eu swyddi ac nid oeddent yn eiriol yn effeithiol dros blant cohort yr YOS.
- Er bod presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dda, nid oedd aelodau'r Bwrdd yn effeithiol gyda dal yr YOS na'i bartneriaid i gyfrif ac ni osodwyd cyfeiriad strategol na blaenoriaethau i'r YOS.
- Roedd rhai pryderon am gyfathrebu rhwng asiantaethau ar draws y bartneriaeth o ran eu harferion diogelu a gwarchod y cyhoedd, mewn tri achos yn benodol, a bu'n rhaid i Arolygiaeth Prawf EM gyflwyno rhybudd sefydliadol.
- Nid oedd Bwrdd Rheoli'r YOS wedi gweithredu'n ddioed a digonol ar argymhellion o'r arolygiad ac archwiliadau blaenorol.
- Roedd bylchau difrifol mewn darparu gwasanaeth, yn enwedig y gwasanaethau iechyd ac addysg.
- Nid oedd polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau wedi eu diweddaru fel nad oedd gan staff fframwaith effeithiol ar gyfer deall a darparu ymarfer da.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o achosion yn wael, ac nid oedd gan uwch-arweinwyr weledigaeth clir o'r ymarfer.
- Ni ddefnyddiwyd gwybodaeth am berfformiad i annog gwelliannau, ac roedd y ffaith nad oedd canfyddiadau archwiliadau allanol a mewnol wedi eu cyfathrebu'n iawn i staff a rhanddeiliaid yn dystiolaeth o hyn.
- Roedd cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant yn anfoddhaol ac nid oedd cynefino digonol i staff newydd.

Mae sefydliadau wedi eu harwain a'u rheoli'n dda'n fwy tebygol o gyflawni eu hamcanion. Arolygwn yn erbyn pedair safon.

| **1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth** | |
|---|---|
| Mae arweinyddiaeth a llywodraethu'r YOT yn cefnogi a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant. | Anfoddhaol |

**Data allweddol**[12]

| | |
|---|---|
| Cyfanswm gwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2018/2019) | £1,957,105 |
| Amcan-gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2019/2020) | £1,932,140 |

Wrth farnu am y llywodraethu a'r arweinyddiaeth, ystyriwn yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant?**

Ni welodd yr arolygwyr unrhyw strategaeth glir i osod cyfeiriad ar gyfer yr YOS. Roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i fonitro ansawdd gwasanaethau'n anfoddhaol. Roedd arweinwyr strategol ac uwch-swyddogion wedi cydnabod bod y cysylltiadau rhwng yr YOS a'r gwasanaethau plant ehangach yn aneffeithiol. Mewn ymateb, eu bwriad meddent oedd gwella'r canlyniadau i blant drwy sefydlu gwasanaeth glasoed a fyddai'n ymgorffori'r YOS a'r gwasanaethau gofal a chymorth ehangach i blant. Roeddent yn bwriadu gwneud hyn drwy ddarparu'r strategaeth gwasanaethau plant.

Hyd yma, mae'r strategaeth gwasanaethau plant wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella gwydnwch yr haen newydd o reolwyr gweithredol ac ailstrwythuro'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau plant yn dimau ardal leol. Nid oedd gwaith ar sefydlu'r gwasanaeth glasoed wedi datblygu llawer pellach na phenodi rheolwr gweithredol ym mis Medi 2019 yn lle'r rheolwr dros dro oedd yn y swydd ers Gorffennaf 2018. Nid oedd trefniadau i weithredu'r gwasanaeth ymhellach wedi datblygu'n ddigonol, a theimlai staff yr YOS eu bod wedi eu gwthio i'r ochr o ganlyniad. Er bod arweinwyr yn cydnabod manteision hirdymor posib lleoli'r YOS o fewn gwasanaeth glasoed ehangach, maen nhw'n annhebygol o wireddu'r manteision hyn heb amserlen, strategaeth a chynllun gweithredu clir.

Nid oeddem yn ffyddiog bod gan yr YOS asesiadau cywir na chynlluniau digon trylwyr i ddelio a rheoli materion risg o niwed a diogelwch a lles y plant yn llwyth achosion yr YOS. Roedd rhai pryderon am gyfathrebu rhwng asiantaethau ar draws y bartneriaeth o ran eu harferion diogelu a gwarchod y cyhoedd, mewn tri achos yn benodol, a bu'n rhaid i Arolygiaeth Prawf EM gyflwyno rhybudd sefydliadol yn ystod wythnos gyntaf y gwaith maes. Yr ymateb a ddaeth yn syth gan y Bwrdd oedd sicrhau'r Arolygiaeth bod yr holl brosesu diogelu a gwarchod y cyhoedd yn eu lle'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd y gwahanol systemau TG wedi cael eu 'croesholi' yn iawn ac nid oedd gwybodaeth achosion wedi'i rhannu rhwng partneriaid perthnasol. Cafodd hyn effaith andwyol ar ansawdd y penderfyniadau.

Mae Bwrdd Rheoli'r YOS yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol, fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gyrfa Cymru, yr aelod arweiniol a'r llysoedd.

[12] Data wedi'i gyflenwi gan yr YOS, ar sail y sefyllfa ariannol fel yr oedd pan gyhoeddwyd yr arolygiad.

Fodd bynnag mae aelodaeth y Bwrdd yn rhy fawr ac nid oes gan lawer o'r aelodau swyddi nac awdurdod digon uchel i wneud penderfyniadau nac ymrwymo adnoddau. Mae'r agendâu yn rhy llawn gan dynnu sylw o'r ffocws penodol sydd angen ei roi ar yr YOS.

Nid oedd prosesau a gweithredu clir yn ei le ar gyfer cynefino na rhoi hyfforddiant parhaus i'r aelodau. Mae'r ddogfen gynefino ddrafft yn un gan YOS cyfagos ac yn dal i gyfeirio at yr YOS hwnnw a'i aelodau Bwrdd, yn hytrach nag at Gaerdydd. Nid oedd cylch gorchwyl aelodaeth bresennol y Bwrdd wedi'i adnewyddu na'i ddiwygio ers 2016 (er cynnal nifer o drafodaethau ar lefel Bwrdd ers Mawrth 2019). Fis Mehefin 2019, derbyniodd Fwrdd Rheoli'r YOS fewnbwn gan YJB Cymru ar lywodraethu effeithiol. Arweiniodd hyn at ymarfer hunan-asesu gydag aelodau'r Bwrdd a ddangosodd fod bwlch yng ngwybodaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, nid oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i ateb y diffygion erbyn ein harolygiad.

Er bod presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn dda, nid oes strwythur i'r cyfarfodydd ac mae cyfranogiad a chyfraniadau'r partneriaid yn anghyson a heb ddigon o ffocws ar fusnes yr YOS. Nid yw'r partneriaid yn deall na'n cydnabod cyfrifoldebau statudol eu hasiantaethau a'r cyfraniad y dylent ei wneud i'r YOS. Penodwyd Cadeirydd Bwrdd yr YOS ym Mehefin 2019 ac er yn gwneud ei rhan, mae'n dal i ddysgu am gyfiawnder ieuenctid, swyddogaeth y Bwrdd, ansawdd y ddarpariaeth a chyfrifoldebau'r partneriaid statudol, ac am ennill dealltwriaeth lawn o waith yr YOS.

Dywedodd Fwrdd Rheoli'r YOS fod y bartneriaeth 'ar siwrne' ond barn y tîm arolygu yw bod rhai aelodau'n rhy optimistaidd am y cynnydd a wnaed yn y misoedd diwethaf, yn enwedig o ystyried canfyddiadau'r archwiliad annibynnol a wnaed gan gwmni ymgynghori Silver Bullet (a gomisiynwyd ym mis Gorffennaf 2019) a sgoriau'r arolygiad presennol. Barnodd yr arolygwyr nad oedd arweinwyr strategol ym mhartneriaeth yr YOS wedi gweithredu'n ddigonol i ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad gan Silver Bullet, oedd wedi tynnu sylw at ddiffygion difrifol yng ngwaith yr YOS ar ddiogelu a gwarchod y cyhoedd. Derbyniodd Brif Weithredwr yr awdurdod lleol y dylent fod wedi ymateb yn fwy cydgysylltiedig a chynllunio'n gynt i ymateb i'r canfyddiadau ar yr ymarfer rheoli achosion gwael. Nododd arolygwyr na chafodd yr adroddiad hwn ei rannu â staff ac nad oedd y cynllun gweithredu'n ddigon trylwyr a manwl o ran 'perchnogion' a phwy oedd yn gyfrifol am y gweithredu.

### Ydy'r trefniadau partneriaeth yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau effeithiol?

Nid yw aelodau Bwrdd yr YOS yn eiriol yn gyson fel rhan o'u rolau ehangach. Dylai aelodau'r Bwrdd hefyd wneud mwy i ymrwymo adnoddau er mwyn gallu darparu gwasanaeth effeithiol i blant yr YOS. Arweiniodd hyn at fylchau yn y gwasanaeth a diffyg dealltwriaeth o anghenion penodol y plant yn llwyth achosion yr YOS. Nid oes strwythurau, fframweithiau, polisïau a llwybrau clir i ateb risgiau ac anghenion y plant ac nid yw'r gwasanaeth wedi llwyddo i ddileu rhwystrau i sicrhau bod cohort yr YOS yn cael mynediad at rai gwasanaethau.

Mae gan yr YOS fylchau yn y gwasanaethau iechyd ac addysg statudol. Bu'r swydd gofal iechyd yn wag ers dros 18 mis a chafwyd oedi gyda chymryd y camau angenrheidiol i lenwi'r swydd. Mae'r YOS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y corff sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth iechyd i'r YOS) wedi cydnabod hyn ac yn y broses o adolygu'r sefyllfa i weld beth fydd yn ateb anghenion yr YOS. Roedd gweithiwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) yr YOS wedi bod ar absenoldeb mamolaeth ers tua chwe mis cyn yr arolygiad. Nid oedd y gwasanaeth wedi llenwi'r swydd dros dro. O'r herwydd roedd diffyg cyfathrebu rhwng yr YOS a darparwyr addysg ac ni allai'r gwasanaeth sicrhau'n briodol felly bod dysgwyr yn derbyn yr asesiad oedd ei angen arnynt i gynllunio eu dyfodol yn iawn. Yn gyffredinol, barnodd

yr arolygwyr fod gwaith ar y cyd rhwng yr YOS a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yn wael.

Nid oedd partneriaeth yr YOS yn gwneud defnydd digonol o'r System Atgyfeirio Genedlaethol i warchod plant sy'n cael eu cam-baratoi gan oedolion i gyflenwi cyffuriau drwy 'linellau sirol'. O'r herwydd bu'n rhaid datblygu gwybodaeth ac arbenigedd o'r gwaelod i fyny heb arweiniad trylwyr a goruchwyliaeth gan reolwyr. O ganlyniad nid oedd rhai plant yn derbyn y cymorth iawn i gadw eu hunain yn ddiogel, ateb eu hanghenion lles neu leihau'r risg i eraill.

Roedd hefyd yn amlwg o'r achosion a archwiliwyd bod diffyg cyd-ddealltwriaeth o ba mor gyffredin a difrifol oedd bod plant yn cael eu hecsbloetio gan droseddwyr. Roedd staff yr YOS yn arbennig o rwystredig gyda methiant rheolwyr gwasanaeth y plant, y staff a phartneriaid eraill i lwyr adnabod pa mor ddrwg oedd yr ecsbloetio gan droseddwyr a'i effaith ar lawer o'r plant yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Roedd uwch-reolwyr yn cydnabod y diffyg hwn. Fodd bynnag, roedd dull partneriaeth o wella gwaith yn y maes hwn ymhell o fod ar y gorwel o ystyried na fyddai'r strategaeth ecsbloetio plant ddrafft yn cael ei chadarnhau gan y bartneriaeth tan Ebrill 2020.

Ar y cyfan roedd staff yr YOS wedi croesawu'r gwasanaeth glasoed ac yn ffyddiog yn eu rheolwr gweithredol newydd. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo na thalwyd digon o sylw i ateb y broblem o weithio mewn 'silo', ac yn enwedig nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng yr YOS ac uned ddiogelu aml-asiantaethol y gwasanaethau plant.

Dywedodd staff yr YOS nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod asiantaethau eraill yn edrych arnynt fel gwasanaeth 'arunig' ar wahân. Er bod staff a rheolwyr o'r gwasanaethau plant ehangach yn amlwg yn gwerthfawrogi arbenigedd neilltuol gweithwyr yr YOS, roeddent hefyd yn adrodd bod ymwahanu eang rhwng gwasanaethau'r YOS a gweddill y gwasanaethau plant.

Er bod trefniant comisiynu ers tro byd gyda Media Academy Cardiff (MAC) i ddarparu ymyriadau OOCD, nid oedd cytundeb lefel gwasanaeth i fesur perfformiad na chanlyniadau'n effeithiol yn erbyn y fanyleb gwasanaeth.

Mae'r Ganolfan Ymbresenoli Ieuenctid (JAC) wedi'i hatal ers Medi 2019 yn dilyn problemau gydag ymddygiad ac iechyd a diogelwch y staff. Nid oedd polisïau na phrotocolau yn eu lle ar gyfer y JAC a chyn ei hatal roedd diffyg llywodraethu ar gyfer y trefniadau hynny.

Mae'r llinellau atebolrwydd i'r byrddau strategol eraill yn ddryslyd a dylid eu hadolygu ar fyrder. Mae Dirprwy Gadeirydd Bwrdd yr YOS wedi cyfeirio busnes yr YOS at y Bwrdd Diogelwch Cymunedol gan ystyried mai dyma'r llwybr uwchgyfeirio gorau. Fodd bynnag nid yw hyn yn rhoi'r mynediad uniongyrchol angenrheidiol at Brif Weithredwr yr awdurdod lleol a phrif weithredwyr y partneriaid statudol (yn enwedig o ystyried y diffygion cyfathrebu difrifol gyda diogelu a gwarchod y cyhoedd yng nghohort yr YOS).

Ni welodd yr arolygwyr unrhyw gynlluniau boddhaol nac atebolrwydd clir am gynnydd gyda'r argymhellion a wnaed gan arolygiad blaenorol yr HMIP yn 2016. Noda'r arolygiad hwn fod angen gwella llywodraethu'r YOS a'r gwaith o gynllunio ac adolygu gwaith i reoli natur fregus ('diogelwch a lles' bellach) a risg y plant o achosi niwed i eraill, a'r oruchwyliaeth gan reolwyr o arferion diogelu a gwarchod y cyhoedd.

### Ydy arweinyddiaeth yr YOT yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau effeithiol?

Nid oedd tîm arweinyddiaeth yr YOS yn darparu cyswllt effeithiol i'r Bwrdd Rheoli. Mae newidiadau wedi bod i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd ers 2016 gan arwain at

ddiffyg cyfathrebu rhwng tîm arweinyddiaeth yr YOS ac uwch-arweinwyr ar draws y bartneriaeth. Dros y cyfnod hwn mae swydd rheolwr gweithredol yr YOS wedi'i llenwi gan dri pherson gwahanol. Bu'r newidiadau hyn yn adweithiol yn bennaf, yn dilyn problemau ehangach yn y gwasanaethau plant a'r awdurdod lleol. O ganlyniad prin iawn fu'r wybodaeth am gyfiawnder ieuenctid ar y lefel reolaeth hon.

Nid oes gan y Bwrdd Rheoli weledcdd clir a digonol o'r ymarfer. Fodd bynnag, yn ddiweddar sefydlwyd patrwm o gyflwyniadau staff thematig i gyfarfodydd y Bwrdd fel un elfen o ymgysylltu ag ymarfer. Lle mae archwiliadau wedi dangos meysydd pryder, nid yw'r Bwrdd wedi ymateb yn ddigon parod i ddatrys y pryderon hyn. Mae diffyg asesiad strategol a gweithredol o risgiau busnes.

Ers 2016, mae gwneud i ffwrdd â thair swydd reoli yn nhîm yr YOS, heb feddwl digon am y canlyniadau, wedi arwain at drosglwyddo cyfrifoldebau a dyletswyddau i ddau reolwr tîm sydd ymhell y tu hwnt i'w graddfeydd a'u swydd-ddisgrifiadau. Yn fwy nodedig, bu'r broses o uwchgyfeirio pryderon am addysg, iechyd neu ddarpariaeth arall yn aneffeithiol fel bod partneriaid iechyd ac addysg wedi methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i'r YOS. Methwyd hefyd ag ymateb i faterion a uwchgyfeiriwyd a phryderon (am lefelau staffio, llwythi gwaith, rhwystrau i weithio mewn partneriaeth, risg a bylchau mewn gwasanaeth) a godwyd dro ar ôl tro gan reolwyr tîm.

Nid yw'r Bwrdd Rheoli wedi gweld, na chymeradwyo, unrhyw ddogfennau polisi allweddol am ddiogelu a rheoli risg ar gyfer cohort yr YOS. Ni welodd y Bwrdd ychwaith unrhyw adolygiadau rheoli unigol mewnol (IMR) ar dri achos YOS diweddar lle cafwyd digwyddiadau difrifol yn y 12 mis diwethaf. Derbyniodd y Bwrdd fod hyn yn fethiant. Er i arolygwyr ofyn amdanynt, ni chafodd y dogfennau IMR hyn eu darparu i ni yn ystod yr arolygiad.

Er bod gan staff gymhelliad ac ymroddiad i weithio ac ymgysylltu â phlant o ddydd i ddydd, mae eu morâl yn isel oherwydd y cyfathrebu gwael gan arweinwyr. Dywedodd staff nad ydynt yn teimlo bod rheolwyr yn gwrando arnynt (dywedodd 93% o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg staff na holir eu barn am weithio i'r YOS). Er bod y Bwrdd yn y misoedd diwethaf wedi derbyn cyflwyniadau thematig gan rai ymarferwyr, yn ôl yr arolwg staff nid oedd 79% o staff yr YOS yn ymwybodol o weithgareddau Bwrdd Rheoli'r YOS. Roedd lefelau uchel o salwch staff (810 diwrnod i gyd pan gynhaliwyd yr arolygiad – i fyny o 630 yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19). Roedd diffyg gwydnwch hefyd ar bob lefel yn y sefydliad o ran y trefniadau dirprwyo ar gyfer gwaith a dyletswyddau pan fydd eraill yn absennol, sy'n risg darparu gwasanaeth.

Dim ond ers Medi 2019 oedd rheolwr gweithredol presennol yr YOS yn gyfrifol am y gwasanaeth. Mae ei chyfrifoldebau YOS yn rhan o'i phortffolio llawer ehangach o fewn y gwasanaethau plant, sy'n cynnwys y timau Ar Ffiniau Gofal, Canolfan Adnoddau'r Glasoed a Chymorth Integredig i Deuluoedd. Mae ehangder y portffolio hwn yn heriol o ystyried yr amser sydd ei angen i ganolbwyntio ar ddiffygion partneriaeth yr YOS ar lefel strategol a gweithredol. Wedi dweud hynny, mae staff yr YOS yn gadarnhaol am ei gweledigaeth ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol, er bod angen cynllun manwl i'w gwiredu. Mae rheolwr gweithredol yr YOS hefyd yn dal i ddysgu am gyfiawnder ieuenctid, swyddogaeth y Bwrdd a chyfrifoldebau'r partneriaid statudol ac angen deall mwy am natur arbenigol gwaith cyfiawnder troseddol.

| 1.2. Staff | ● |
|---|---|
| Mae staff yr YOT wedi eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant. | Anfoddhaol |

**Data staffio allweddol**[13]

| | |
|---|---|
| Cyfanswm staff (cyfwerth ag amser llawn, FTE) | 47 |
| Cyfradd swyddi gwag (cyfanswm swyddi heb eu llenwi fel canran o'r cyfanswm staff) | 6.4% |
| Cyfradd swyddi gwag: rheolwyr achos yn unig (cyfanswm staff rheolwyr achos heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff rheolwyr achos) | 3.2% |
| Llwyth gwaith cyfartalog: rheolwyr achos (FTE) | 11[14] |
| Cyfanswm diwrnodau salwch blynyddol (yr holl staff) | 810 |
| Staff yn gadael (canran o'r holl staff yn gadael mewn cyfnod o 12 mis) | 15% |

Wrth farnu am y staffio, ystyriwn yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**Ydy'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant?**

Nid oedd proses na pholisi dyrannu achosion felly roedd y broses dyrannu achosion yn gymharol ddi-drefn ac nid oedd dulliau clir ar gyfer adolygu gofynion newydd na phroffiliau achos. Mae llwythi gwaith gwahanol aelodau o staff yn amrywio ac nid oedd strategaeth rheoli llwyth gwaith. Nid oedd gan reolwyr y capasiti i flaenoriaethu gwaith yn effeithiol, yn benodol o ran diogelu, gwarchod y cyhoedd, goruchwylio staff a sicrhau ansawdd. Nid oedd gan yr YOS fframwaith sicrhau ansawdd cadarn yn ei le.

Roedd cyfrifoldebau rheoli'r rheolwyr tîm yn rhy eang a nifer y staff oedd yn adrodd iddynt yn rhy uchel. Roedd effaith hyn yn glir yn y diffyg goruchwyliaeth o ymarfer gan reolwyr. Yn achosion parth dau, barnodd yr arolygwyr fod 94% o'r goruchwylio gan reolwyr yn annigonol, ac yn achosion parth tri roedd 78% o'r goruchwylio gan reolwyr yn annigonol.

Roedd gan yr YOS rai swyddi gwag yn cynnwys swyddog dioddefwyr, rheolwr achosion YOT, rheolwyr achos ymddygiad gwrthgymdeithasol, a swydd weinyddol. Nid oedd yn glir a fyddai a phryd y byddai'r swyddi hyn yn cael eu llenwi.

---

[13] Data wedi'i gyflenwi gan yr YOS ac yn adlewyrchu staffio pan gyhoeddwyd yr arolygiad (Rhagfyr 2019)

[14] Data wedi'i gyflenwi gan yr YOS ac yn seiliedig ar staffio a llwyth gwaith pan gyhoeddwyd yr arolygiad.

**Ydy sgiliau staff yr YOT yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant?**

Roedd diffyg amrywiaeth ethnig ymhlith y staff, ac nid oedd yn adlewyrchu nodweddion y plant oedd yn cael eu goruchwylio gan yr YOS. Yn ôl yr arolwg staff roedd 7% o'r ymatebwyr yn BAME o'i gymharu â llwyth achosion yr YOS o 24% BAME.

Mae cronfa o staff yn yr YOS sy'n gymwysedig a phrofiadol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant cyfiawnder ieuenctid penodol mewn rhai agweddau ar ymarfer fel asesu a rheoli risg o niwed a hyrwyddo ymatal rhag troseddu. Roedd yn bryder darganfod nad oedd rhai staff wedi derbyn hyfforddiant AssetPlus digonol ac nad oeddent yn deall sut i ddefnyddio'r offeryn asesu pwysig hwn. Tynnwyd sylw at y pryderon hyn yn yr adroddiad gan Silver Bullet dyddiedig Gorffennaf 2019 ond ni chymerwyd unrhyw gamau (ac nid oedd yr adroddiad wedi'i rannu â staff ychwaith).

Mae'r diffyg eglurder ynghylch disgwyliadau, arweiniad a chyfeiriad y gwasanaeth wedi effeithio ar forâl y staff. Dywedodd lawer o staff eu bod yn teimlo'n bryderus ac ansicr am gyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol. Barnodd arolygwyr mai ychydig iawn o brosesau oedd yn eu lle i gasglu adborth gan staff drwy arolygon neu gyfarfodydd tîm ffurfiol a rheolaidd. Er bod staff yn bwyllog obeithiol am reolwr gweithredol newydd yr YOS, siaradodd lawer yn onest hefyd am y trafferthion adnoddau a phartneriaeth (mewnol ac allanol) yr oeddent yn eu hwynebu'n ddyddiol. Er hyn, dangosodd y staff gymhelliad da i ymgysylltu a gweithio gyda'r grŵp plant anodd a chymhleth hwn. Holwyd sampl fach o bump o blant, mewn grŵp ffocws. Roeddent i gyd yn canmol sut oedd eu rheolwyr achos wedi gweithio gyda nhw a gwneud eu gorau i ateb eu hanghenion a rhoi cymorth.

Nid oedd plismyn yr YOS wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar eu rôl, dim ond wrth drosglwyddo o'r plismyn oedd yn eu swyddi'n flaenorol. Ychydig iawn o arweiniad oedd ar gael iddynt heblaw am ganllawiau'r YJB ar rôl plismon ar secondiad. Nid oedd gan y plismyn wybodaeth fanwl am ddiogelu, ecsbloetio plant yn rhywiol na'r Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Aml-asiantaethol (MAPPA). Ychydig iawn o hyfforddiant a gawsant yn y meysydd hyn er eu bod oll wedi derbyn hyfforddiant profiadau andwyol mewn plentyndod, wedi'i ddarparu gan yr heddlu. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn hanfodol os yw'r plismyn i roi'r arweiniad priodol i reolwyr achos, cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd paneli risg a rhoi cymorth arbenigol i'r YOS ar ddiogelu'r plant a'r cyhoedd fel ei gilydd. Nid oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar y cyd â staff eraill yr YOS.

Roedd y gwasanaeth wedi cyflogi nifer o staff dwyieithog ers yr arolygiad diwethaf yn 2016. Roedd swydd siaradwr Cymraeg yn y tîm gweinyddol, yn benodol ar gyfer dyletswyddau derbynfa ac ateb y ffôn. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw trefniadau'r gwasanaeth i ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigon da. Lle gallai'r plant siarad Cymraeg, nid oedd y gwasanaeth yn eu cysylltu'n systematig i weithiwr achos a allai siarad Cymraeg. Roedd darpariaeth wael o lythyrau profforma dwyieithog neu adnoddau dysgu / gweithgaredd yn Gymraeg. Uniaith Saesneg oedd y rhan fwyaf o'r arwyddion neu'r wybodaeth ar y waliau.

Mae gan yr YOS grŵp ymroddedig o staff gwirfoddol. Daw'r rhain o wahanol gefndiroedd gydag oedran, rhywedd, tarddiad ethnig a phrofiad amrywiol. Siaradai'r gwirfoddolwyr yn gadarnhaol am eu cymorth a'u hyfforddiant gan yr YOS. Roedd ystod y gweithgareddau yr oedd gwirfoddolwyr yn rhan ohonynt yn cynnwys aelodaeth o banel gorchmynion atgyfeirio, darparu cymorth priodol i oedolion a phrosiectau datrys yn y gymdogaeth. Roedd aelodau'r panel atgyfeirio'n deall eu rôl a'u cyswllt â rheolwyr achos a staff eraill yn yr YOS.

Nid oedd gan yr YOS unrhyw strategaeth i adnabod potensial staff a chynorthwyo gyda chynllunio olyniaeth. Nid oedd tystiolaeth fod staff yn cael cyfle i 'uwch-weithredu' nac yn cael eu mentora yn y sefydliad.

### Ydy'r oruchwyliaeth o waith yn cynorthwyo gyda darparu a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?

Barnodd arolygwyr fod ansawdd y goruchwylio gan reolwyr yn wael. Nid oedd gan rai staff y sgiliau i asesu a chynllunio'n effeithiol sut i reoli diogelwch a lles a'r risg o achosi niwed i eraill. Fodd bynnag, nid oedd y diffygion hyn yn cael sylw na'n cael eu cywiro drwy oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr llinell. Roedd Arolygiaeth Prawf EM wedi cyflwyno rhybudd ar dri achos yn ystod wythnos gyntaf y gwaith maes oherwydd pryderon sylweddol am arferion diogelu yn yr achosion hyn.

Dywedodd lawer o'r staff na chawsant gynefino priodol na goruchwyliaeth reolaidd. Nid oedd yr oruchwyliaeth a gawsant yn ddigon da ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn brin neu'n absennol. Yn yr achosion a arolygwyd yn ystod wythnos gyntaf y gwaith maes, dywedodd 59% o'r staff fod yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn aneffeithiol. Barnodd arolygwyr fod y goruchwylio gan reolwyr yn aneffeithiol mewn 94% o achosion ôl-lys ac mewn 78% o achosion OOCD.

Tan yn ddiweddar, nid oedd rheolwyr tîm yr YOS yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Ar un adeg meddent, roeddent wedi mynd am ddeufis heb unrhyw gyswllt gan y rheolwr gweithredol YOS blaenorol. Nid oes polisi ar uwchgyfeirio pryderon am ansawdd rheoli achosion nac ar ddileu rhwystrau i weithio'n effeithiol, sy'n golygu mai rheolwyr tîm yr YOS sy'n gyfrifol am yr holl risg.

Dywedodd staff o ddau sefydliad partner camddefnyddio sylweddau y cawsant eu goruchwylio gan eu rheolwyr partneriaeth, ond dywedodd y rheolwyr hynny eu bod yn derbyn fawr ddim neu ddim gwybodaeth o gwbl gan reolwyr yr YOS am berfformiad eu staff unigol.

Yn yr arolwg staff, dywedodd 44% o'r staff fod eu harfarniad diwethaf naill ai'n hwyr neu heb fod o werth. Nid oedd rheolwyr tîm wedi cael arfarniad diweddar ac roedd amcanion yn cael eu torri a'u gludo o amcanion corfforaethol y flwyddyn flaenorol. Dywedodd staff nad oes trefniadau yn eu lle i gydnabod na gwobrwyo cyflawni. Mae unrhyw adborth da'n anghyson ac anystyrlon.

Roedd peth ymateb i broblemau staffio wedi bod (er enghraifft drwy atal y Ganolfan Ymbresenoli Ieuenctid, disodli'r plismon blaenorol ac atal rheolwr achos YOS dros dro o'i swydd), ond dim ond pan oedd argyfwng eisoes wedi digwydd yn hytrach na thrwy flaengynllunio neu ddadansoddi anghenion y plant.

### Ydy'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu'n gynhwysfawr ac ymatebol?

Ni welsom unrhyw ddadansoddiad o ddatblygiad y gweithlu (archwiliad sgiliau) a chynllun hyfforddiant cysylltiedig, heblaw am daenlen o fynychu cyrsiau hyfforddi. Cynhelir y cyrsiau hyn ar-lein yn bennaf, drwy systemau'r cyngor. Dywedodd staff mai ychydig iawn o hyfforddiant AssetPlus a gawsant a barnodd arolygwyr fod taer angen i lawer o'r staff dderbyn hyfforddiant sgiliau asesu sylfaenol. Mae diffyg hyfforddiant MAPPA a dim ond rhai staff sydd wedi cael hyfforddiant AIM2. Mae hefyd angen hyfforddiant pellach ar ecsbloetio gan droseddwyr, a'r risg o niwed.

Barnodd arolygwyr (a dywedodd staff) fod diffyg cyfarfodydd tîm a chyfathrebu gwael oddi mewn ac ar draws y sefydliad a'r bartneriaeth. Nid yw canfyddiadau adolygiadau rheoli, archwiliad cwmni ymgynghori Silver Bullet, ac arolygiadau blaenorol, wedi cael eu rhannu ac nid oedd cynllun clir i adolygu gwahanol agweddau ar y gwaith. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd o fframwaith sicrhau ansawdd a thystiolaeth annigonol o adborth gan reolwyr mewn cofnodion achos.

### 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau ymatebol, wedi eu personoli ac o ansawdd uchel ar gael i'r holl blant. | Anfoddhaol |

| | |
|---|---|
| Canran yr achosion presennol gyda phroblemau iechyd meddwl[15] | 34% |
| Canran yr achosion presennol gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau | 62% |
| Canran yr achosion presennol gyda chynllun addysg, iechyd a gofal | 14% |

Wrth farnu am bartneriaethau a gwasanaethau, ystyriwn yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a diweddar o broffiliau'r plant yn cael ei wneud i sicrhau y gall yr YOT ddarparu a thargedu gwasanaethau'n briodol?**

Nid yw'r YOS wedi gwneud dadansoddiad clir o broffil cohort plant yr YOS, sy'n gymhleth ac yn cynnwys plant ag amrywiol anghenion a risgiau. O ganlyniad mae bylchau yn y gwasanaeth sy'n effeithio'n negyddol ar blant o ran eu diogelu, risg o achosi niwed i eraill, a pha mor debygol ydynt o aildroseddu.

Bu'r swydd gofal iechyd yn wag ers dros 18 mis a chafwyd oedi gyda chymryd y camau angenrheidiol i lenwi'r swydd. Mae'r YOS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y corff sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth iechyd i'r YOS) wedi cydnabod hyn ac yn y broses o adolygu'r sefyllfa i weld beth fydd yn ateb anghenion cohort plant yr YOS.

Nid oedd staff yr YOS yn canolbwyntio'n ddigonol ar y berthynas bwysig rhwng gwella sgiliau sylfaenol gwael y plant a lleihau ymddygiad troseddol. Nid oedd dadansoddiad yn cael ei wneud o sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant yn y gwasanaeth. Nid oedd staff bob amser yn glir at bwy y gallent atgyfeirio pobl ifanc i'w helpu i wella eu sgiliau.

**A oes gan bartneriaeth yr YOT fynediad at ystod ddigonol o wasanaethau ac ymyriadau o ansawdd da i ateb anghenion yr holl blant?**

Mae'r YOS wedi'i gefnogi'n dda gan Heddlu De Cymru ac mae dau blismon llawn amser ar secondiad, a thrydydd plismon dros dro, ynghlwm wrth yr adran. Mae'r plismyn wedi eu cyd-leoli yn adeilad yr YOS ond nid yn y swyddfa gyffredinol, sy'n rhwystr i wybodaeth gael llifo'n rhwydd. Roedd y plismyn yn cael eu goruchwylio gan sarjant sydd hefyd yn gyfrifol am yr uned rheoli troseddwyr yn integredig (IOM). Roedd cymorth hefyd yn cael ei roi gan y ditectif-sarjant yn y tîm Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Threisgar (MOSOVO) sy'n mynychu'r YOS yn rheolaidd i roi cymorth a chyngor ar faterion diogelu. Roedd cysylltiadau'n datblygu rhwng y plismyn ar secondiad a'r tîm plismona lleol, a hyn yn cael ei annog gan sarjant yr YOS. Roedd swyddogion o'r uned yn gweithio'n agosach â'r uned troseddu cyfundrefnol a'r timau datrys problemau yng nghyswllt plant mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i 'linellau cyffuriau sirol'.

[15] Data wedi'i gyflenwi gan yr YOS, ar sail y problemau oedd gan y cohort pan gyhoeddwyd yr arolygiad.

Nid oedd gan yr YOS lwybr atgyfeirio clir at therapi iaith a lleferydd drwy weithiwr iechyd YOS. Roedd yn bosib cael mynediad at therapi iaith a lleferydd drwy weithiwr addysg yr YOS, ond roedd y swydd hon yn wag ers Gorffennaf 2019 oherwydd absenoldeb mamolaeth, gan adael bwlch yn y ddarpariaeth.

Gall rhoi sylw i ymddygiad rhywiol niweidiol fod yn rhan o gynllun dedfrydu. Roedd hybu iechyd rhywiol ar gael drwy atgyfeirio at weithiwr arbenigol yn yr YOS, ond roedd yr adnodd yn ymddangos i fod yn sylfaenol a chyfyngedig. Roedd yr aelod hwn o staff hefyd yn hybu iechyd rhywiol mewn ysgolion drwy fenter byw'n iach.

Mae'r diffyg gweithwyr gofal iechyd ymhlith staff yr YOS wedi golygu bod gan staff yr YOS lai o gyfle i gael eu huwch-sgilio mewn meysydd fel lles meddwl ac emosiynol. Oherwydd y diffyg staff gofal iechyd mae staff yr YOS wedi dod yn ddibynnol ar atgyfeirio plant at wasanaethau allanol. Ni fyddai rhai o'r plant hyn yn bodloni'r trothwy ar gyfer derbyn gwasanaethau mwy dwys ac arbenigol, ond eto mae ganddynt angen iechyd sydd angen sylw.

Roedd gweithiwr ETE yr YOS wedi bod ar absenoldeb mamolaeth ers tua chwe mis cyn yr arolygiad. Nid oedd y gwasanaeth wedi llenwi'r swydd dros dro gan greu bwlch yn y cyfathrebu rhwng yr YOS a darparwyr addysg ac ni allai'r gwasanaeth felly sicrhau bod dysgwyr yn derbyn yr asesiad oedd ei angen arnynt i gynllunio'n iawn ar gyfer eu dyfodol. Nid oedd gwybodaeth am gefndir addysgol ac anghenion y plant oedd yn cyrraedd yr YOS o'r newydd, ac am gynnydd addysgol y plant oedd eisoes yn y gwasanaeth, yn cael ei chasglu'n effeithiol i oleuo ymyriadau'r gweithwyr achos.

Mae gan yr YOS swyddog prawf llawn amser ar secondiad sy'n cael ei oruchwylio gan uwch-swyddog prawf o'r NPS. Cynhelir cyfarfodydd tair ffordd pob tri mis rhwng y gwasanaeth prawf, yr YOS a'r rheolwr tîm cyswllt i drafod achosion sydd ar fin pontio i'r gwasanaeth prawf oedolion. Mae swyddog prawf ar secondiad yr YOS hefyd yn mynychu cyfarfodydd tîm prawf i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu. Ar adeg yr arolygiad, roedd llwyth gwaith swyddog prawf yr YOS yn eithaf cytbwys ac roeddent yn derbyn hyfforddiant gan eu sefydliad prawf a'u sefydliad secondio.

**A oes trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd?**

Nid oedd y trefniadau partneriaeth yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau effeithiol nac integredig â'r gwasanaethau ehangach i blant. Ar y cyfan roedd staff yr YOS wedi croesawu'r gwasanaeth glasoed ac yn ffyddiog yn eu rheolwr gweithredol newydd. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo na thalwyd digon o sylw i ateb y broblem o weithio mewn 'silo', ac yn enwedig nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng yr YOS ac uned ddiogelu aml-asiantaethol y gwasanaethau plant.

Dywedodd staff yr YOS nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod asiantaethau eraill yn edrych arnynt fel gwasanaeth 'arunig' ar wahân. Yn yr un modd, er bod staff a rheolwyr o'r gwasanaethau plant ehangach yn amlwg yn gwerthfawrogi arbenigedd neilltuol gweithwyr yr YOS, roeddent hefyd yn adrodd bod ymwahanu eang rhwng gwasanaethau'r YOS a gweddill y gwasanaethau plant.

Nid oedd gweithwyr yr YOS a thimau'r gwasanaethau plant eraill yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd yn ddigon da. Gwelsom rai enghreifftiau da o weithio gyda'i gilydd yng nghyswllt digartrefedd a gwasanaethau ataliol. Fodd bynnag nid oedd dealltwriaeth dda o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn gofal a chymorth, a dim cymhwysiad cyson ohonynt, gan greu gwrthdaro yn y disgwyliadau rhwng gweithwyr. Roedd hyn yn rhwystro cyfathrebu a gweithio'n effeithiol ar y cyd i ateb anghenion y bobl ifanc, gan gynnwys eu hanghenion diogelu.

Yn aml iawn mae'r fforymau cynllunio achosion (lle trafodir plant sy'n cyflwyno'r risg uchaf) yn aneffeithiol gyda rheoli achosion lle mae risg uchel o niwed ac anghenion diogelwch a lles. Mewn llawer o'r achosion a arolygwyd, nid oedd y camau cywir wedi eu cymryd, ni wnaed i ffwrdd â rhwystrau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ac nid oedd rhanddeiliaid allweddol (ar wahân i'r YOS a'r heddlu) wedi eu cynrychioli'n ddigonol ar y lefel iawn o wneud penderfyniadau. Bu'r arolygwyr yn arsylwi mewn cyfarfod fforwm cynllunio i drafod plentyn oedd ar fin cael eu rhyddhau o'r ddalfa gan nodi bod cynlluniau annigonol wedi eu gwneud i reoli'r risg o niwed i eraill, a materion diogelwch a lles, yn effeithiol.

Mae gan yr YOS ddau weithiwr camddefnyddio sylweddau dynodedig, o ddwy asiantaeth bartner (Adferiad a CGL – Change Grow Live). Mae un asiantaeth bartner yn cael ei hariannu gan yr awdurdod lleol a'r llall gan y bwrdd iechyd. Mae'r ddau weithiwr camddefnyddio sylweddau'n ymroddedig a brwdfrydig am eu rolau, er y trafferthion sylweddol ar yr ochr arweinyddiaeth a rheoli yn yr YOS. Siaradodd y ddau'n gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan eu rheolwyr partneriaeth, ac roedd y ddau reolwr partneriaeth yn eu tro'n canmol gwaith y gweithwyr. Fodd bynnag, ni allai unrhyw un o reolwyr tîm yr YOS ddangos tystiolaeth o gyfathrebu rheolaidd rhwng yr YOS a'r asiantaethau partner.

Barnodd yr arolygwyr fod ystod o ymyriadau camddefnyddio sylweddau priodol, ar sail anghenion y bobl ifanc, yn cael eu darparu drwy fewnbwn y bartneriaeth i'r YOS. Yn wir, roedd yn glir fod y staff yn gweithredu i ateb unrhyw anghenion iechyd taer. Er hynny roedd diffyg adnoddau yn yr YOS i helpu plant i dderbyn cymorth am anghenion iechyd llai taer. Nid oedd gan yr YOS y capasiti i asesu anghenion iechyd y plant yn llawn heblaw drwy'r offeryn sgrinio iechyd sylfaenol AssetPlus, ac roedd diffyg llwybrau sefydledig i ateb anghenion a aseswyd.

Mae gan yr YOS bartneriaeth gref â Gyrfa Cymru. Roedd rheolwr o Gyrfa Cymru'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr YOS yn rheolaidd ac yn cynorthwyo cynghorwyr gyrfaoedd yr YOS yn briodol. Roedd Gyrfa Cymru'n sicrhau bod gan ei staff oedd ar secondiad i'r YOS fynediad da at gyrsiau hyfforddiant.

Roedd yr YOS yn gweithio ag ystod eang o bartneriaid i gynnig cyfleoedd dysgu i'r plant. Roedd y partneriaid yn cynnwys ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, colegau, darparwyr dysgu arbenigol a chyflogwyr. Roedd y bartneriaeth hefyd yn gweithio gyda MAC (Media Academy Cardiff) i ddarparu ymyriadau OOCD. Gallai'r plant wedyn gael mynediad at gyrsiau cymorth neu ymyriadau ETE pellach – yn ystod ac ar ôl i'w goruchwyliaeth gan yr YOS ddod i ben. Roedd staff yn cynnal cyswllt da â'r darparwyr hyn i helpu'r plant i bontio'n effeithiol at ETE. Roedd staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i blant gael sesiynau blasu cyn ymrwymo i ddysgu pellach. Mae estyniad yr awdurdod lleol o Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS) a darpariaeth addysg hyblyg wedi gwella'r amrediad o opsiynau sydd ar gael i ateb anghenion dysgwyr unigol yn yr YOS. Fodd bynnag, nid oedd gweithwyr achos bob tro'n deall yr holl ddarpariaeth sydd ar gael i blant yr YOS.

Nid oedd protocol gwaith na phrosesau cytunedig clir ar gyfer y panel OOCD. Roedd arolygwyr wedi arsylwi'r panel ac wedi canfod ei fod yn adolygu llawer o achosion lle'r oedd y penderfyniad OOCD eisoes wedi'i wneud, a'r panel felly'n fwy o fforwm rheoli achosion. Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth o oedi cyn asesu'r achos a darparu ymyriadau.

### Cyfranogiad y plant, eu rhieni a'u gofalwyr

Roedd uwch-arweinwyr yn cydnabod bod angen iddynt wneud mwy o waith i sicrhau eu bod yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn systematig. Roedd yr arolygwyr wedi holi grŵp bach o bump o blant ac ar y cyfan teimlai'r plant hyn fod yr YOS wedi bod yn ddefnyddiol. Dywedodd y plant i gyd fod troseddau cyllyll yn broblem ddifrifol

yng Nghaerdydd ac yn gwaethygu, a'u bod yn adnabod pobl a gafodd eu trywannu. Teimlai'r grŵp i gyd fod disgwyliadau eu hymyriadau wedi cael eu hegluro iddynt a bod y staff yn eu trin gyda pharch. Dywedodd bob un y gallent siarad â'u rheolwyr achos a bod hwythau'n gwrando arnynt. Dywedodd un plentyn y byddai'n dda pe bai mwy o leoliadau i gyfarfod â staff yr YOS oherwydd eu bod weithiau'n gorfod teithio'n eithaf pell.

Roedd adborth y plant o'r arolwg testun yn fwy cymysg. Roed rhai plant yn canmol y gwaith oedd yn cael ei wneud gan eu rheolwyr achos ond eraill yn tynnu sylw at y pellter teithio i gyrraedd yr YOS a'r diffyg adnoddau. I gyd, anfonwyd 16 arolwg allan cyn i waith maes yr arolygiad ddechrau a derbyniwyd chwe ymateb yn ôl.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau

| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael a chyfleusterau priodol yn eu lle i gynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli ac o ansawdd uchel i'r holl blant. | Anfoddhaol |
|---|---|

Wrth farnu safon y staffio, ystyriwn yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**Ydy'r polisïau a'r canllawiau angenrheidiol yn eu lle fel bod staff yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n ateb anghenion yr holl blant?**

Roedd nifer o bolisïau a chanllawiau allweddol wedi dyddio ac angen eu hadolygu, yn enwedig rhai'n ymwneud â rheoli diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.

Roedd llawer o'r protocolau wedi dyddio ac yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sydd wedi darfod (fel rhybuddion terfynol a cheryddon). Nid yw'r protocol llys wedi'i adolygu ers 2016. Dyddiad y polisi gofal cymdeithasol plant / YOS ar y cyd oedd 2011; dyddiad y polisi disgyblaeth oedd Ebrill 2016; a dyddiad y polisi galluogrwydd oedd Mawrth 2014. Nid oedd yr un ohonynt wedi cael eu hadolygu na'u diwygio i adlewyrchu arferion a threfniadau gweithio presennol yr YOS.

Nid oedd protocolau clir na fframweithiau a chanllawiau i gynorthwyo rhanddeiliaid allweddol y bartneriaeth i ddarparu dedfrydau OOCD. Nid oedd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr YOS a Media Academy Cardiff. O'r herwydd nid yw'r trefniadau a gomisiynwyd i ddarparu rhai dedfrydau OOCD yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol.

**Ydy amgylchedd(au) darparu'r YOT yn ateb anghenion yr holl blant a chynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd?**

Lleolir yr YOS yng Nghanolfan John Kane yn unig, a chydleolir staff o asiantaethau partner yn yr un adeilad. Mae'r YOS yn annog gweithio ystwyth; fodd bynnag yn ôl y staff, nid oes digon o le yn yr adeilad sy'n amharu ar eu gallu i weithio'n effeithiol. Lleolir staff llys ar wahân yn y llys ieuenctid yng Nghaerdydd.

Lleisiodd staff bryderon am sawl agwedd ar adeilad yr YOS. Roedd hyn yn cynnwys dim mynedfa ar wahân i staff a phlant, a dim digon o le i weithio'n effeithiol, ac adegau pan oedd ffraeo neu wrthdaro wedi digwydd rhwng plant yn yr adeilad.

**Ydy'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cynorthwyo'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ac ateb anghenion yr holl blant?**

Roedd y staff i gyd (gan gynnwys staff ar secondiad o'r heddlu, prawf a MAC) yn defnyddio Childview fel prif system rheoli achosion yr YOS. Mae gan y plismyn

fynediad llawn at systemau TG yr YOS a'r heddlu, gan gynnwys Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, ac yn gyfarwydd â sut i'w defnyddio. Roedd gan y system rheoli cofnodion system faneri a ddefnyddiwyd yn effeithiol iawn gan blismyn yr YOS. Drwy'r system hon tynnir sylw plismyn yr YOS yn sydyn iawn at blentyn sy'n cael ei reoli gan yr YOS.

Rhaid i blismyn rheng flaen gyflwyno Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (PPN) bob tro y tynnir eu sylw at blentyn lle mae pryderon am ddiogelu neu natur fregus y plentyn. Cyflwynir y ffurflenni hyn i uned ddiogelu aml-asiantaethol (MASH) sydd, yn ei thro, yn dosbarthu'r wybodaeth i asiantaethau partner perthnasol lle bo angen. Barnodd arolygydd HMICFRS fod anghysondeb gyda chwblhau'r ffurflenni hyn gan staff rheng flaen, gyda nifer heb gael eu cyflwyno ar gyfer plant a reolir gan yr YOS. O ganlyniad, roedd angen i blismyn yr YOS lenwi ffurflenni PPN yn ôl-weithredol a'u cyflwyno i'r MASH. Fodd bynnag, mae ansawdd y cyflwyniadau hyn yn wael gyda llawer o'r wybodaeth heb fod ar gael i blismyn yr YOS.

Yn y gwasanaethau plant, nid oes proses systematig i weithwyr cymdeithasol wneud archwiliadau ar atgyfeiriadau i'r YOS. Mae archwiliadau drwy system Carefirst y gwasanaethau plant, a'r system faneri ar Childview, yn dibynnu'n llwyr ar reolwyr achos yr YOS. Nododd arolygwyr nad oes gan y MASH fynediad at system rheoli achosion yr YOS. O ganlyniad, nid oes system ddibynadwy i sicrhau bod yr holl waith a rennir yn cael ei adnabod yn brydlon. Yn gadarnhaol, mae gan staff yr YOS fynediad at Carefirst. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oeddent yn gyfarwydd iawn â'r system ac na allent chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf a pherthnasol. Roedd gweithwyr cymdeithasol y gwasanaethau plant yn rhwystredig â pha mor aneffeithlon oedd y system Carefirst. Er enghraifft, ni allent gofnodi gwybodaeth bwysig yn gronolegol fel bod angen iddynt ofyn am hysbysiadau ffurfiol gan yr YOS oedd yna'n dyblygu gwaith ar y ddwy ochr. Mae uwch-arweinwyr yn cydnabod cyfyngiadau'r system Carefirst ac mae cynlluniau ar y gweill i'w disodli.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno system gwybodaeth reoli ar gyfer darparwyr EOTAS er mwyn gallu cofnodi presenoldeb a pherfformiad y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan yr YOS fynediad at y system hon felly nid yw'n gallu monitro a yw disgyblion yn mynychu eu haddysg yn y gymuned.

### A wneir defnydd effeithiol o ddadansoddi, tystiolaeth a dysgu i annog gwelliannau?

Ym Mehefin 2019 derbyniodd Fwrdd Rheoli'r YOS fewnbwn gan YJB Cymru ar lywodraethu effeithiol. Arweiniodd hyn at ymarfer hunan-asesu gydag aelodau'r Bwrdd a ddangosodd fod bwlch yng ngwybodaeth y Bwrdd. Fodd bynnag, nid oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i ateb y diffygion hyn erbyn ein harolygiad.

Mae'r YOS wedi'i wasanaethu'n dda gan swyddog gwybodaeth dynodedig sy'n gallu casglu ynghyd amrywiol adroddiadau perfformiad a monitro o'r system rheoli achosion – ar lefel swyddogion unigol a lefel sefydliadol ehangach. Fodd bynnag ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i annog gwelliannau parhaus. Ers Awst 2019 mae adroddiadau i'r Bwrdd Rheoli wedi cael eu symleiddio a'u diwygio i gynnwys adran ar iechyd sefydliadol, sy'n cynnwys materion fel heriau, salwch a swyddi gwag.

Ychydig iawn o dystiolaeth oedd bod partneriaeth yr YOS wedi ymateb i arolygiadau ac archwiliadau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM yn 2016, archwiliad hunan-asesu Bwrdd Rheoli'r YOS gan YJB Cymru ym Mehefin 2019; archwiliad achosion gan gwmni ymgynghori Silver Bullet yng Ngorffennaf 2019; dysgu o dri digwyddiad difrifol dros y 12 mis diwethaf yn ymwneud ag achosion yr YOS; a chanfyddiadau ymarferion meincnodi yn erbyn adroddiadau blaenorol gan Arolygiaeth Prawf EM yn Western Bay a Wrecsam.

Ychydig iawn o ddadansoddi hefyd a wnaed o effaith y diffyg gweithwyr iechyd ac addysg o fewn yr YOS. Nododd arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru na sgriniwyd iechyd corfforol ac iechyd meddwl ar AssetPlus mewn traean o'r sampl achosion, fel bod anghenion iechyd nifer fawr o bobl ifanc heb gael eu hasesu. Hyd yn oed lle'r oedd asesiadau AssetPlus llawn wedi eu gwneud, nid oedd llwybrau clir i blant ar gyfer derbyn gwasanaethau iechyd meddwl neu gorfforol arbenigol. Barnodd yr arolygwyr addysg nad oedd gwerthusiad systematig yn cael ei wneud i weld a oedd sgiliau ETE y plant wedi gwella yn ystod eu cyfnod gyda'r YOS.

Ers Gorffennaf 2019 roedd panel lleihau aildroseddu yn monitro achosion oedd yn destun pryder. Fodd bynnag, ymddengys ei fod yn cael ei gynnal ar lefel rheolwyr tîm heb unrhyw broses uwchgyfeirio glir i broblemau gael sylw ar lefel uwch.

## 2. Dedfrydau gan y llys

Edrychodd yr arolygiad ar 16 o ddedfrydau cymunedol a dwy ddedfryd dan glo oedd dan reolaeth y YOS. Cynhaliwyd hefyd ddeunaw o gyfweliadau gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Edrychodd yr arolygiad ar ansawdd yr asesu; cynllunio; gweithredu a darparu; ac adolygu. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn o ran pa waith a wnaed i wella ymatal rhag troseddu, ac ar ddiogelwch a lles y plentyn. Yn y 18 achos lle'r oedd ffactorau'n ymwneud â niwed, arolygwyd hefyd pa waith a wnaed i gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn y 18 achos lle'r oedd ffactorau perthnasol, edrychwyd hefyd ar ba waith a wnaed i sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar bob elfen o oruchwyliaeth pob achos fod yn uwch na throthwy penodol iddo gael ei sgorio'n foddhaol.

Lle dedfrydir plant i ddedfryd gan y llys, rydym yn disgwyl gweld yr YOS yn achub ar bob cyfle i gael canlyniad llwyddiannus drwy roi sylw i ymatal rhag troseddu, cynnwys y plant a'u rhieni / gofalwyr yn effeithiol yn y gwaith, ac ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol. Rydym hefyd yn disgwyl gweld y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a sylw'n cael ei roi i'w diogelwch a'u lles. Yn olaf, rydym yn disgwyl gweld popeth rhesymol yn cael ei wneud i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan blant sydd wedi troseddu. Dylai hyn fod drwy asesu a chynllunio o ansawdd da a darparu ymyriadau priodol ynghyd â gwaith rheoli ac arweinyddiaeth dda gyda'r holl asiantaethau statudol a gwirfoddol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Yn y gwasanaeth YOS hwn, oherwydd bod llai na 50% o'r achosion yn bodloni ein holl ofynion o ran asesu, cynllunio, darparu a gweithredu, ac adolygu, bu'n rhaid i ni farnu bod yr holl elfennau gwaith hyn yn 'Anfoddhaol'. O bryder arbennig oedd ansawdd yr asesu ar gyfer ymatal rhag troseddu a diogelwch a lles (dim ond traean o'r achosion oedd yn foddhaol o ran y pethau hyn) a natur anfoddhaol y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles a'r risg o achosi niwed i eraill (dim ond 11% am y naill a 17% am y llall oedd yn foddhaol). Roedd yr adolygu hefyd yn eithriadol wael gyda dim ond 33% yn bodloni ein safonau ar ymatal rhag troseddu, 22% ar ddiogelwch a lles a dim ond 14% ar ansawdd y gwaith o adolygu'r risg o niwed.

O ran ansawdd gweithredu a darparu cynlluniau goruchwylio, roedd 75% o'r achosion a arolygwyd yn cyrraedd ein safonau ar waith ymatal rhag troseddu. Fodd bynnag, dim ond 44% a gyrhaeddodd y safon ar waith diogelwch a lles a dim ond 39% a gyrhaeddodd y safon ar y risg o niwed. Oherwydd y diffygion gyda gweithredu a darparu gwaith diogelu a gwarchod y cyhoedd, barnodd y panel sgorio nad oedd unrhyw seiliau dros ymarfer disgresiwn proffesiynol ynghylch y sgôr cyffredinol, ac arhosodd yn 'Anfoddhaol'.

**Cryfderau:**

- Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n effeithiol yn cynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu.
- Roedd staff yn canolbwyntio ar gynnal perthynas weithio effeithiol gyda'r plentyn a'r rhieni / gofalwyr.
- Roedd y cynllunio'n gymesur â chanlyniad yr achos llys, ac roedd yn bosib darparu ymyriadau o fewn amserlen briodol.
- Pan ddarparwyd gwasanaethau, y rhai oedd fwyaf tebygol o helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu oeddent. Roedd staff yn talu sylw digonol i drefn y gwaith a'r amserlen briodol.

| Meysydd lle mae angen gwella: |
|---|
| • Roedd ansawdd yr asesu i sicrhau bod plant yn ymatal rhag troseddu, eu diogelwch a'u lles a'r risg o niwed i eraill, yn anfoddhaol.<br>• Roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn wael.<br>• Roedd asesu a chynllunio i ateb anghenion a dymuniadau dioddefwyr troseddau'n anfoddhaol.<br>• Roedd gweithredu a darparu gwaith ar ddiogelu a gwarchod y cyhoedd yn anfoddhaol.<br>• Roedd diffygion difrifol ym mhob agwedd ar waith adolygu gan reolwyr achos.<br>• Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o achosion ôl-lys yn eithriadol wael. |

Byddai gwaith gyda phlant a ddedfrydir gan y llys yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, edrychwn ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, arolygwn yn erbyn pedair safon.

### 2.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesu yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli i'r unigolyn, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[16] ar gyfer asesu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol isod:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | **33%** |
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **33%** |
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 44% |

**Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Barnodd yr arolygwyr fod ansawdd yr asesu i sicrhau bod plant yn ymatal rhag troseddu, eu diogelwch a'u lles a'r risg o niwed i eraill, yn anfoddhaol. Yn rhy aml, roedd diffyg dadansoddi ac ni ddefnyddiai'r asesiadau wybodaeth bwysig o ffynonellau a chan asiantaethau eraill i oleuo barn neu ddosbarthiad risg. Nid oedd ymddygiad blaenorol a phresennol yn cael ei ystyried yn systematig ac roedd diffyg dull ymchwiliol gyda llawer o'r achosion a arolygwyd. Roedd goruchwyliaeth y

[16] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

rheolwyr yn wael iawn ac nid oedd y diffygion ymarfer yn cael sylw na'n cael eu cywiro.

Dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos a arolygwyd oedd yr asesiad yn dadansoddi'r ymddygiad troseddol yn iawn, gan gynnwys agweddau'r plentyn at eu troseddu a'u cymhelliad dros droseddu. Dim ond mewn hanner yr achosion oedd staff yn ystyried amrywiaeth a chyd-destun cymdeithasol ehangach y plentyn, a dim ond mewn dau o bob tri oedd unrhyw ffocws ar gryfderau a ffactorau gwarchodol y plentyn. Roedd asesu rhwystrau strwythurol i ymatal rhag troseddu'n anfoddhaol, yn enwedig o ystyried rhai o'r bylchau yn narpariaeth iechyd ac addysg y bartneriaeth ehangach ar gyfer cohort yr YOS, gyda dim ond traean o'r achosion yn bodloni'r safon. Dim ond mewn 20% o'r achosion perthnasol yr ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr, gan leihau'r cyfle i sicrhau cyfiawnder adferol.

### Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Yn rhy aml, nid oedd asesiadau diogelwch a lles yn ystyried ffactorau a phroblemau perthnasol yr achosion yn ddigonol, gan arwain at farnu'r ymarfer yn anfoddhaol. Dim ond mewn 6 allan o 17 achos perthnasol oedd staff wedi adnabod a dadansoddi risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn yn foddhaol. Mewn saith achos, roedd yr asesiadau'n gwneud defnydd priodol o asesiadau neu wybodaeth gan asiantaethau eraill. Dim ond mewn 4 allan o 17 achos perthnasol roddodd staff ddigon o sylw i ddadansoddi mesurau rheoli neu ymyriadau i hybu diogelwch a lles y plentyn orau.

Nododd un arolygydd:

> *"Roedd y plentyn wedi'i ynysu drwy'r amser yn yr ysgol ond ni wyddom pam. Gadawodd yr ysgol 18 mis yn gynnar ac nid yw'r asesiad yn trafod y rheswm am hyn. Mae arwyddion ei fod wedi'i ecsbloetio gan droseddwyr a'i rieni'n poeni am ei ffordd o fyw a'i gysylltiadau. Nid yw'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac mae'n cyflwyno'n fregus ac iau na'i oed. Mae gan y plentyn EHCP [cynllun addysg, iechyd a gofal] ond nid oedd y rheolwr achos wedi gweld y cynllun. Mae ganddo ADHD a Tourettes a bu'n blentyn mewn angen yn y gorffennol. Nid yw'r holl ffactorau hyn wedi eu casglu ynghyd a'u dadansoddi i asesu ei ddiogelwch a'i les yn gywir".*

### Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd asesu risg y plentyn o achosi niwed i eraill yn wael. Dim ond mewn 5 allan o 16 achos perthnasol oedd yr asesiadau'n adnabod a dadansoddi unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys adnabod pwy oedd mewn perygl a natur y risg. Dim ond yn chwarter yr achosion oedd rheolwyr achos yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth a chynnwys asiantaethau eraill, lle'r oedd hynny'n briodol. Dim ond yn chwarter yr achosion yr ystyriwyd mesurau rheoli ac ymyriadau i reoli a lleihau risg y plentyn o achosi niwed i eraill. Er bod arolygwyr yn cytuno â lefel y dosbarthiadau risg o niwed i eraill mewn 14 allan o 18 achos, ni wnaed dadansoddiad rhesymegol ac nid oedd rheolwyr achos wedi defnyddio'r wybodaeth oedd ar gael i gefnogi eu penderfyniad ar ddosbarthiad risg.

| 2.2. Cynllunio | |
|---|---|
| Mae'r cynllunio'n holistig, yn gwneud defnydd da o wybodaeth ac wedi'i bersonoli i'r unigolyn, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[17] ar gyfer cynllunio'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 44% |
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **11%** |
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 17% |

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Barnodd yr arolygwyr fod ansawdd y cynllunio i sicrhau bod plant yn ymatal rhag troseddu, eu diogelwch a'u lles a'r risg o niwed i eraill, yn anfoddhaol. Roedd cynlluniau'r achosion a arolygwyd yn aml yn rhy gryno a chyffredinol heb gysylltiad clir i gynlluniau asiantaethau perthnasol eraill. Yn benodol, roedd ansawdd y cynllunio wrth gefn yn wael, ac fel gyda'r asesu, roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn wael ac nid oedd yn rhoi sylw i'r diffygion ymarfer.

Roedd rheolwyr achos wedi nodi pa wasanaethau oedd fwyaf tebygol o helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu mewn 8 allan o 18 achos. Mewn 8 allan o 18 achos perthnasol, nid oedd y cynllunio'n ystyried amrywiaeth a chyd-destun cymdeithasol y plentyn. Mewn dros hanner y 18 achos, nid oedd y cynllunio'n cydnabod cryfderau a ffactorau gwarchodol y plentyn, a dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos oedd staff yn ystyried pa mor aeddfed oeddent ac effaith hynny ar eu cymhelliad. Mewn 11 allan o 17 achos, nid oedd digon o dystiolaeth bod y plentyn na'u rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn y cynllunio a bod eu barn wedi'i hystyried. Dim ond mewn tri allan o'r 15 achos perthnasol yr ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr.

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd y risg i ddiogelwch a lles y plentyn wedi cael sylw dim ond mewn 3 allan o 18 achos perthnasol. Dim ond mewn 3 allan o 18 achos oedd y cynllunio wedi cynnwys asiantaethau eraill yn foddhaol. Roedd diffygion difrifol yn y trefniadau wrth gefn i reoli materion diogelwch a lles, ac ni chafodd hyn sylw mewn 16 allan o'r 18 achos perthnasol. Roedd y cynllunio wedi canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel dim ond mewn dau allan o'r 18 achos.

Nododd un arolygydd:

> *"Yn yr achos hwn, roedd y cynllunio wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles yn wael ac yn llawer rhy gryno a byr / amhenodol. Nid oedd unrhyw gynllunio cydgysylltiedig na chyfeiriad at y cynllun LAC presennol, dim copi na chyfeiriad at yr ECHP a dim*

[17] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

> *cysylltiad i'r cynllun CAMHS mewngymorth [gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed]".*

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd ansawdd y cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn anfoddhaol. Roedd y cynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill yn foddhaol dim ond mewn 4 allan o 18 achos, a dim ond 3 allan o 18 achos oedd wedi cynnwys asiantaethau eraill, lle'r oedd hynny'n briodol. Dim ond mewn 3 allan o'r 18 achos oedd sylw wedi'i roi i risg a phryderon penodol yn ymwneud â dioddefwyr neu a allai fod yn ddioddefwyr.

Dim ond mewn 4 allan o'r 18 achos oedd y cynllunio'n disgrifio'r mesurau rheoli a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill. Fodd bynnag nid oedd trefniadau effeithiol wrth gefn, i reoli'r risgiau oedd wedi eu hadnabod, mewn 16 allan o'r 18 achos a arolygwyd.

Nododd un arolygydd yn glir:

> *"Roedd y cynllunio ar gyfer ROH [risg o niwed] yn annigonol. Roedd fforwm cynllunio achosion aml-asiantaethol yr YOS yn aneffeithiol a diamcan, a thystiolaeth brin o gyd-gynllunio a rhannu gwybodaeth ac adborth gyda'r heddlu. Roedd y cynllunio wrth gefn yn wael ac yn llawer rhy fyr ac amhenodol. Roedd yn cael ei drosglwyddo i gynlluniau adolygu oedd heb eu diweddaru'n iawn gyda gwybodaeth gyfoes".*

## 2.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Darperir gwasanaethau cydgysylltiedig wedi eu personoli o ansawdd a gyda ffocws da i gynorthwyo ac annog cyfranogiad y plentyn. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[18] ar gyfer gweithredu a darparu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n helpu'r plentyn yn effeithiol i ymatal rhag troseddu? | 75% |
| Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 44% |
| Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **39%** |

**Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n helpu'r plentyn yn effeithiol i ymatal rhag troseddu?**

Mewn 75% o'r achosion, y gwasanaethau a ddarparwyd oedd y rhai mwyaf tebygol o helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu, ac roedd cryfderau a ffactorau gwarchodol y plentyn wedi eu cydnabod a'u defnyddio mewn 12 allan o 17 achos perthnasol. Mewn 13 allan o 17 achos perthnasol, roedd yn glir bod staff yn canolbwyntio ar gynnal perthynas weithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni / gofalwyr. Roedd

[18] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

tystiolaeth mewn ychydig dros dri chwarter o'r achosion a arolygwyd fod digon o sylw'n cael ei roi i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith yr YOS.

**Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Barnodd arolygwyr fod y gwaith o hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn yn anfoddhaol. Roedd darparu gwasanaethau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn ond wedi digwydd mewn 7 allan o 18 achos ac roedd y rheolwr achos wedi cydgysylltu a chynnwys sefydliadau eraill dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion. Yn gyffredinol, roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel dim ond mewn 8 allan o 18 o'r achosion a arolygwyd.

Nododd un arolygydd:

> *"Roedd bylchau sylweddol gyda chael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, a gredai nad oedd y plentyn yn cyrraedd y trothwy, er gwaethaf nifer o ffactorau fel digartrefedd, NEET [heb fod mewn addysg, hyfforddiant na gwaith], camddefnyddio sylweddau a'r teulu wedi chwalu. Roedd hyn wedi cael ei uwchgyfeirio at reolwyr tîm yr YOS a'i drafod gyda rheolwr tîm gofal cymdeithasol ond ni chafodd y penderfyniad ei newid, ei uwchgyfeirio ymhellach na'i ôl-ddilyn. Roedd bylchau gyda chael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, eto gyda staff yr YOS yn cyflawni gwaith cymorth a rheoli argyfwng. Roedd y plentyn wedi cyfaddef fod angen cwnsela profedigaeth drwy CAMHS arno ond cafodd ei wrthod a'i hysbysu fod angen iddo fod mewn gwaith llawn amser cyn y byddai'n barod am waith therapiwtig".*

**Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd gwasanaethau wedi eu darparu i gadw pobl eraill yn ddiogel, drwy reoli a lleihau'r risg o niwed, dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos dan sylw. Dim ond mewn 6 allan o'r 16 achos perthnasol oedd staff wedi cydgysylltu a chynnwys asiantaethau eraill. Ystyriwyd gwarchod dioddefwyr a dioddefwyr posib mewn llai na hanner yr achosion, ac yn gyffredinol roedd cymorth effeithiol i ddiogelu pobl eraill wedi'i ddarparu dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos dan sylw.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae adolygu cynnydd yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[19] ar gyfer adolygu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 33% |
| Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 22% |

[19] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

| | |
|---|---|
| Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **14%** |

**Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Gall amgylchiadau plant newid yn sydyn iawn gan achosi cynnydd neu weithiau leihad mewn pa mor debygol ydynt o aildroseddu, y risg o achosi niwed i eraill neu'r risg i'w diogelwch a'u lles. Barnodd arolygwyr, o edrych ar yr achosion ôl-lys, fod adolygiadau'n aml iawn yn hwyr, heb eu gwneud ar ôl newid sylweddol, neu fel arall yn cael eu diweddaru'n wael neu eu copïo o'r asesiadau cychwynnol. Nid oeddent felly'n gyfoes na'n adlewyrchu amgylchiadau a phroblemau presennol y plentyn yn gywir, na'r gwaith a allai fod wedi'i wneud i ateb y problemau hyn. Nid oedd y diffygion adolygu'n cael sylw na'n cael eu cywiro drwy oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr ac roedd y trefniadau adolygu ar y cyd a chydgysylltu ag asiantaethau eraill yn aneffeithiol.

Roedd adolygu wedi arwain at adnabod ac yna ymateb i newidiadau i'r ffactorau oedd yn gysylltiedig ag ymatal rhag troseddu dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos. Mewn dros hanner yr achosion, nid oedd adolygu'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn na'n ystyried yn foddhaol beth oedd lefel eu cyfranogiad a'u cymhelliad. Roedd y plentyn a'u rhieni / gofalwr wedi cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y broses, a'u barn wedi'i hystyried, dim ond mewn 7 allan o'r 18 achos.

**Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd ansawdd yr adolygiadau o ddiogelwch a lles plant yn anfoddhaol. Roedd rheolwyr achos wedi adnabod ac ymateb i newidiadau mewn diogelwch a lles dim ond mewn traean o'r achosion perthnasol. Roedd gwybodaeth gan asiantaethau eraill wedi'i chasglu a'i hystyried dim ond mewn 4 allan o 18 achos ac roedd y broses adolygu wedi arwain at wneud newidiadau angenrheidiol i'r cynllun mewn llai na chwarter yr achosion. Yn gyffredinol, roedd yr adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel dim ond mewn chwarter yr achosion.

Nododd un arolygydd:

> *"Roedd oedi o saith mis wedi bod rhwng yr asesiad cychwynnol a'r asesiad adolygu. Nid oedd adolygiad wedi'i wneud yn dilyn newidiadau a digwyddiadau sylweddol dros y cyfnod hwnnw (gan gynnwys ffurflen System Atgyfeirio Genedlaethol wedi'i chyflwyno, cynnal ymchwiliad Adran 47, hunan-ddatgelu ecsbloetio gan droseddwyr, troseddau newydd wedi eu cyflawni a hunan-ddatgelu camddefnyddio sylweddau). Pan gwblhawyd yr adolygiad, ni chafodd ei ddiweddaru'n iawn ac nid oedd yn nodi'n ddigonol y gwaith a wnaed neu y ceisiwyd ei wneud, nac unrhyw newid yn y sefyllfa".*

**Ydy adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd adolygu'r risg o achosi niwed i eraill hefyd yn wael. Mewn 10 allan o'r 14 achos perthnasol, nid oedd y rheolwr achos wedi adnabod nac ymateb i newid mewn risg, a dim ond mewn 2 allan o'r 14 achos yr ystyriwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill. Nid oedd y plentyn a'u rhieni / gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn ystyrlon mewn adolygu'r risg o niwed i eraill, ac ni ystyriwyd eu barn ychwaith, mewn 11 allan o'r 14 achos. Dim ond mewn dau allan o'r 14 achos yr arweiniodd yr adolygiad at wneud addasiadau angenrheidiol i'r cynllun gwaith i reoli a lleihau'r risgiau hyn. Yn gyffredinol, roedd yr adolygu wedi canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel dim ond mewn 2 allan o'r 14 achos.

Cafodd y broblem o adolygu diogelu gwael ei hamlygu gan yr achos canlynol:

*"Nid oedd cyfeiriad ac adolygu clir er mwyn ystyried bod risg a'r pryderon diogelwch ynghylch Ryan wedi cynyddu. Ar ôl chwe wythnos o'i ISS, roedd Ryan wedi datgysylltu o'r YOT, wedi'i arestio am droseddau newydd ac wedi gwrthod dod i'r llys i wynebu cyhuddiadau newydd. Bryd hynny roedd yr YOT yn goruchwylio Ryan ar drwydded ôl-ryddhau ond ni ystyriwyd a fyddai ei alw'n ôl yn rheoli ei risg a helpu i gc ddiogel".*

## 3. Dedfrydau allan-o-lys

Edrychodd yr arolygiad ar 11 achos a dderbyniodd ddedfryd allan-o-lys (OOCD) oedd dan reolaeth yr YOS. Roeddent yn cynnwys tri rhybuddiad ieuenctid amodol, dau rybuddiad ieuenctid a chwe gorchymyn penderfyniad cymunedol. Holwyd y rheolwyr achos mewn 10 achos; gyda'r llall, darllen y ffeil a wnaethom.

Edrychodd yr arolygiad ar ansawdd yr asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu gwasanaethau. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn o ran pa waith a wnaed i wella ymatal rhag troseddu. Ar gyfer y saith achos lle'r oedd ffactorau'n ymwneud â risg o niwed, arolygwyd hefyd pa waith a wnaed i gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn yr wyth achos lle'r oedd ffactorau perthnasol, edrychwyd ar ba waith a wnaed i sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Edrychodd yr arolygiad hefyd ar ansawdd y gwaith ar y cyd â'r heddlu lleol. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar bob elfen o oruchwyliaeth pob achos fod yn uwch na throthwy penodol iddo gael ei sgorio'n foddhaol.

Lle dedfrydir plant i ddedfryd OOCD, rydym yn disgwyl gweld yr YOS yn achub ar bob cyfle i gael canlyniad llwyddiannus drwy roi sylw i ymatal rhag troseddu, cynnwys y plant a'u rhieni / gofalwyr yn effeithiol ac ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol. Rydym hefyd yn disgwyl gweld y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a sylw'n cael ei roi i'w diogelwch a'u lles. Yn olaf, rydym yn disgwyl gweld popeth rhesymol yn cael ei wneud i reoli'r risg o niwed a gyflwynir gan blant sydd wedi troseddu. Dylai hyn fod drwy asesu a chynllunio o ansawdd da, darparu ymyriadau priodol a gwaith rheoli ac arweinyddiaeth dda ynghyd â phenderfyniadau da ar y cyd a'r holl asiantaethau statudol a gwirfoddol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Mae YOS Caerdydd yn gweithredu model lle darperir peth o'r gwaith OOCD (yn benodol, gorchmynion penderfyniad cymunedol) gan gorff trydydd sector - Media Academy Cardiff (MAC). Gwneir hyn drwy drefniant comisiwn ac mae gan staff MAC sy'n gwneud y gwaith hwn fynediad at systemau rheoli achosion yr YOS, gofal cymdeithasol a'r heddlu. Er bod dogfen manyleb gwasanaeth wedi'i datblygu cyn comisiynu MAC i wneud y gwaith hwn, roedd rheolwyr cyswllt yr YOS (a hefyd rheolwr tîm MAC) yn cadarnhau nad oedd cytundeb lefel gwasanaeth yn ei le i fesur a gwerthuso'r perfformiad yn effeithiol. Roedd penderfyniadau ar achosion unigol yn cael eu gwneud mewn panel wythnosol o weithwyr YOS, gweithwyr dioddefwyr, staff MAC a phlismyn ar secondiad. Arsylwodd arolygwyr y panel hwn a barnu (mewn rhai achosion) bod tystiolaeth o oedi cyn i achosion gael eu hasesu, a gyda darparu ymyriadau. Nid oedd protocol gwaith na chanllawiau clir ar gyfer y panel OOCD. Barnodd arolygwyr fod y panel yn adolygu nifer o achosion lle'r oedd y penderfyniad OCCD eisoes wedi'i wneud, ac yn yr achosion hyn ei fod felly'n fwy o fforwm rheoli achosion na'n gorff gwneud penderfyniadau.

Yn y gwasanaeth YOS hwn, roedd llai na hanner yr achosion OOCD yn ateb ein holl ofynion o ran asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu; o ganlyniad barnodd arolygwyr fod yr elfennau hyn yn 'Anfoddhaol'. Er bod asesu a chynllunio i wella ymatal rhag troseddu'n gryf (82% am y naill a 73% am y llall), nid oedd hyn yn wir am

ddiogelwch a lles na'r risg o niwed i eraill. Roedd asesu'n bodloni ein safonau ar ddiogelwch a lles dim ond mewn 18% o'r achosion. Dim ond 27% o'r asesiadau oedd yn ddigonol o ran risg o niwed. Roedd diffygion difrifol yn ansawdd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles, gyda dim o'r wyth achos perthnasol gydag anghenion o'r fath yn cyrraedd ein safonau gofynnol. O ran ansawdd gweithredu a darparu cynlluniau OOCD, roedd y gwaith i wella ymatal rhag troseddu, diogelu a gwarchod y cyhoedd yn anfoddhaol, gan fodloni ein safonau dim ond mewn 45%, 14% a 29% o'r achosion yn yr un drefn.

O ran gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill, roedd 45% o'r achosion yn bodloni ein safonau bod argymhellion yr YOS yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi eu personoli i'r plentyn, gyda 67% o'r achosion yn cwrdd â'r safon ar gyfer gweithio ar y cyd â'r heddlu. Fodd bynnag, roedd y ganran olaf yn seiliedig ar is-sampl fach o dri achos. Gan edrych ar y dystiolaeth ar draws 'parth un', barnodd yr arolygwyr fod diffygion gyda darparu'r panel OOCD a diffyg fframwaith, gweithdrefnau a chanllawiau addas i gynorthwyo gwaith da. O ran y safon ar weithio ar y cyd felly, barnodd yr arolygwyr fod hyn yn 'Anfoddhaol.'

**Cryfderau:**

- Roedd asesu ymatal rhag troseddu mewn achosion OOCD yn wych.
- Roedd cynllunio ar gyfer ymatal rhag troseddu'n dda.
- Roedd staff yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas weithio effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni / gofalwyr.
- Roedd asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn ystyried aeddfedrwydd, capasiti i newid ac amrywiaeth y plentyn, ac yn gymesur â'r math o ddedfryd.

**Meysydd lle mae angen gwella:**

- Roedd diffygion difrifol yn ansawdd yr asesu a'r cynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn a'r risg o niwed i eraill, mewn achosion allan-o-lys.
- Roedd gweithredu a darparu gwaith i wella ymatal rhag troseddu, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn anfoddhaol.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr o ddedfrydau OOCD yn wael.
- Nid oedd cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y YOS a Media Academy Cardiff; o'r herwydd, nid oedd y YOS yn monitro a gwerthuso'n effeithiol y trefniadau a gomisiynwyd i ddarparu rhai dedfrydau OOCD.
- Roedd angen datblygu'r fframwaith ar gyfer darparu dedfrydau OOCD ac roedd diffyg protocolau a chanllawiau i randdeiliaid yn y bartneriaeth.
- Roedd arolygwyr wedi arsylwi'r panel a chanfod ei fod yn adolygu llawer o achosion lle'r oedd y penderfyniad OCCD eisoes wedi'i wneud, ac yn yr achosion hyn ei fod felly'n fwy o fforwm rheoli achosion na'n gorff gwneud penderfyniadau fel y dylai fod.
- Mewn rhai achosion OOCD a ystyriwyd gan y panel ac a arsylwyd gan yr arolygwyr, roedd tystiolaeth o oedi cyn i achosion gael eu hasesu, a gyda darparu ymyriadau.

- Nid oedd rhesymeg y penderfyniadau ar y cyd mewn achosion OOCD yn cael ei chofnodi'n glir.

Byddai'r gwaith gyda phlant a ddedfrydir allan-o-lys yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, edrychwn ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, arolygwn yn erbyn pedair safon.

### 3.1. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesu'n gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[20] ar gyfer asesu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 82% |
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **18%** |
| Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 27% |

**Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Roedd yr asesiadau o ymatal rhag troseddu a ffactorau'n ymwneud â throseddu o ansawdd digon da mewn 9 allan o'r 11 achos a arolygwyd. Cawsom fod asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn ystyried amrywiaeth, aeddfedrwydd a'r capasiti i newid. Roeddent yn cynnwys y plentyn a'u rhieni / gofalwyr mewn 10 allan o'r 11 achos.

Nododd un arolygydd:

> *"Roedd Brandon yn destun YCC [rhybuddiad ieuenctid amodol] am fod ag arf ymosodol yn ei feddiant, lle'r aeth â chyllell i'r parc a'i dangos i'w ffrindiau. Roedd gan Brandon gefnogaeth gref gan ei deulu ac roedd hyn wedi'i gyfleu yn yr asesiad. Roedd gan ei rieni agwedd bositif tuag at weithio gyda'r YOS a'r heddlu, a dangosodd yr asesiad fod Brandon wedi dangos ei fod yn edifar am yr hyn a wnaeth ac nad oedd ganddo gysylltiadau troseddol eraill a fyddai'n ei gymell i droseddu ymhellach".*

**Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd asesu diogelwch a lles y plant yn anfoddhaol a barnwyd bod hyn yn ddigonol mewn llai nag un o bob pum achos. Y prif ddiffygion gyda'r ymarfer asesu oedd methu â defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill a diffyg dadansoddi ymddygiad a phroblemau blaenorol a phresennol, gan arwain at beidio ag ystyried y risg i ddiogelwch a lles yn ddigonol. Cytunai'r arolygwyr â'r dosbarthiad risg diogelwch a lles dim ond mewn ychydig dros draean o'r achosion dan sylw. Mewn llawer o'r

[20] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

asesiadau OOCD nid oedd y dosbarthiad neu'r farn am ddiogelwch a lles y plentyn yn rhesymegol.

Mewn un achos, barnodd yr arolygydd:

> *"Nid oedd yr asesiad yn cynnig dosbarthiad ar ddiogelwch a lles ac nid oedd wedi casglu ynghyd gwybodaeth hanesyddol bwysig o'r cofnodion gofal cymdeithasol. Roedd y plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant ar un adeg, ond roedd y rheolwr achos yn cyfaddef nad oedd wedi darllen y cofnodion gofal cymdeithasol na siarad â'r gweithiwr cymdeithasol blaenorol".*

**Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Fel gyda diogelwch a lles, cafwyd bod asesu risg y plant o achosi niwed i eraill yn anfoddhaol. Roedd y rheolwr achos wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill neu ddogfennau, i oleuo eu barn mewn llai na thraean o'r achosion a arolygwyd. Cytunodd yr arolygwyr â lefel y risg o niwed i eraill dim ond mewn 5 allan o 11 achos, gyda rheolwyr achos yn gyson yn peidio ag ystyried yn ddigonol y risg a gyflwynid gan y plentyn. Gwelsom batrwm tebyg i'r ymarfer diogelwch a lles gydag asesiadau'n methu â defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill, yn dangos diffyg dadansoddiad rhesymegol o ymddygiad presennol a blaenorol, ac mewn dros hanner yr achosion, diffyg crynodeb a dosbarthiad o'r risg o achosi niwed i eraill. Yn gyffredinol roedd asesu'r risg o niwed i eraill yn ddigonol dim ond mewn 3 allan o 11 o'r achosion perthnasol.

Nododd un arolygydd yr achos canlynol:

> *"Roedd Freddie wedi bygwth trais a threisio ei athrawes ac wedi cael ei weld y tu allan i gyfeiriad yr aelod o staff. Nid oedd yr asesiad yn rhoi cyd-destun nac amserlen fanwl o'r digwyddiadau hyn er yn ystyried ymddygiad presennol Freddie gydag arfau. Fodd bynnag, roedd yr asesiad yn codi gormod o gwestiynau heb eu hateb am ymddygiad Freddie a heb gynnig dealltwriaeth lawn a boddhaol o'i dueddiad i fod yn dreisgar".*

| **3.2. Cynllunio** | |
|---|---|
| Mae'r asesu'n gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[21] ar gyfer cynllunio'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydy |
|---|---|
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 73% |
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **0%** |

[21] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 44% |
|---|---|

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Roedd cynllunio gwasanaethau i gynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu'n ddigonol mewn 9 allan o 11 o'r achosion OOCD a arolygwyd. Er bod y cynllunio i ystyried amrywiaeth a chyd-destun cymdeithasol yn llai boddhaol, mewn 6 allan o 11 achos, roedd yn canolbwyntio ar gryfderau'r plentyn mewn bron i dri chwarter yr achosion. O'r pum achos perthnasol lle'r oedd dioddefwr uniongyrchol, roedd y cynllunio'n ddigonol ym mhob un ac roedd y cynllunio'n ystyried cyfleoedd i integreiddio yn y gymuned, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd yn dilyn cwblhau OOCD, mewn 10 allan o'r 11 achos.

Barnodd un arolygydd mewn un achos:

> *"Roedd yn cynllunio i ymatal rhag troseddu'n gyson â'r problemau a ddisgrifiwyd yn yr asesiad, yn benodol o ran alcohol, lles emosiynol a gweithgarwch positif / ETE. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio ymatal rhag troseddu ar ddiwedd y gwasanaeth, a'r plentyn wedi'i gysylltu i asiantaethau a chwnsela ar ôl cwblhau'r OOCD".*

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Nid oedd y cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn yn ddigonol yn yr un o'r wyth achos perthnasol. Dim ond mewn un o'r wyth achos hyn y gwelsom gynnwys neu gysoni â chynlluniau asiantaethau eraill (fel gofal cymdeithasol). Dim ond mewn un achos oedd unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer newidiadau i lefel diogelwch a lles.

Nododd un arolygydd:

> *"Er bod gan y plentyn anghenion diogelwch a lles sylweddol, nid yw'r cynllun yn cyplysu â'r cynllun amddiffyn plant ac nid yw'r cynllun amddiffyn plant yn cael ei weithredu'n llawn. Nid oes gwybodaeth yn dod gan yr heddlu a'r gwasanaeth addysg, gan effeithio ar y broses gynllunio. Mae'r cynllun YOS wedi'i gyfyngu i amodau'r YCC, sy'n brin".*

Barnodd arolygydd arall fel a ganlyn mewn achos arall:

> *"Roedd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles yn wael a phrin, heb gysylltu o gwbl i'r cynllun LAC. Roedd y cynllunio wrth gefn yn wael a llawer rhy fyr, heb gynnwys unrhyw gamau gweithredu penodol pe bai'r pryderon am ddiogelwch a lles yn cynyddu".*

**Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd cynllunio i roi sylw i ffactorau risg o niwed i eraill i'w weld mewn tri allan o'r saith achos perthnasol ac yn cynnwys asiantaethau eraill mewn pedwar allan o'r saith achos. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio wrth gefn i reoli risgiau wedi'u hadnabod dim ond mewn dau allan o'r saith achos, a chynllunio i roi sylw i bryderon yn ymwneud â dioddefwyr a dioddefwyr posib mewn llai na hanner yr achosion perthnasol. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth o gynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel dim ond mewn tri allan o'r saith achos.

### 3.3. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Darperir gwasanaethau personol, cydgysylltiedig o ansawdd a gyda ffocws da i gynorthwyo ac annog cyfranogiad y plentyn. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[22] ar weithredu a darparu'n seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydynt |
|---|---|
| A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 45% |
| A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **14%** |
| A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 29% |

**A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu?**

Roedd ymddygiad troseddol yn cael ei ddadansoddi'n ddigonol mewn bron i ddau allan o bob tri o'r achosion. Roedd yr asesiad yn ystyried amrywiaeth a chyd-destun cymdeithasol y plentyn mewn ychydig dros hanner yr achosion. Roedd cryfderau a ffactorau gwarchodol y plentyn, a'r cymhelliad i newid, yn cael eu hystyried mewn llai na dau allan o bob tri o'r achosion, ac yn yr un gyfradd o achosion roedd ymarferwyr wedi cynnwys y plentyn a'u rhieni / gofalwyr yn yr asesiad ac wedi ystyried eu barn. Fodd bynnag, dangosodd rai achosion fod bylchau mewn gwasanaethau ehangach wedi effeithio ar y gwaith.

Mewn un achos o'r fath, barnodd yr arolygydd:

> *"Roedd pryderon fod gan y plentyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (ac efallai AAA) ond nid oedd hyn wedi cael sylw oherwydd bylchau gwasanaeth. Nid oedd gan yr YOS therapydd iaith a lleferydd ac roedd y gweithiwr addysg ar absenoldeb mamolaeth a neb yn ei lle. Roedd maen tramgwydd wedi bod gyda lleoli'r plentyn mewn ysgol yn llawn amser ac mae mewn addysg rhan amser anaddas. Mae'r plentyn yn gyndyn o gydweithio ond mae'r gweithiwr achos wedi dyfalbarhau a gweithio'n ddiwyd i ddatblygu perthynas â fo".*

**A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd tystiolaeth fod diogelwch a lles y plentyn yn cael ei hyrwyddo drwy wasanaeth dim ond mewn un allan o'r saith achos perthnasol, a dim ond mewn un achos y gwelsom reolwyr achos yr YOS yn cynnwys a chydgysylltu ag asiantaethau eraill i gadw plant yn ddiogel.

Cafodd hyn ei nodi gan un arolygydd:

> *"Ar ddiwedd yr ymyriad nid oedd unrhyw ddealltwriaeth well o risg Sonny o gael ei ecsbloetio gan droseddwyr. Nid oedd y gwasanaeth wedi rhoi sylw i ddylanwad ei gyfoedion ar ei risg o niwed".*

[22] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

**A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

O ran cadw pobl eraill yn ddiogel, roedd sylw wedi'i roi i warchod dioddefwyr a dioddefwyr posib dim ond mewn dau allan o'r chwe achos perthnasol. Roedd yr ymyriadau'n llwyddo i reoli a lleihau'r risg o niwed dim ond mewn traean o'r achosion perthnasol, ac yn gyffredinol roedd diogelwch pobl eraill yn cael ei gefnogi'n effeithiol dim ond mewn dau allan o'r saith achos perthnasol.

Nododd un arolygydd:

> *"Roedd diffyg cyswllt dros gyfnod o ddau fis ar yr OOCD. Yn wir, yn y diwedd roedd y plentyn wedi aildroseddu'n sgîl honiadau o ddwyn ac ymosod ac roedd diffyg gwirio / rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu. Roedd y rheolwr achos wedi darganfod hyn o'r system gofal cymdeithasol Carefirst – a heb gael ei hysbysu gan blismon YOT".*

### 3.4. Gweithio ar y cyd

| | |
|---|---|
| Mae gweithio ar y cyd â'r heddlu'n cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi eu personoli ac o ansawdd da. | Anfoddhaol |

Mae ein sgôr[23] ar gyfer gweithio ar y cyd yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % ydynt |
|---|---|
| A yw argymhellion yr YOT yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi eu personoli i'r plentyn gan gynorthwyo penderfyniadau ar y cyd? | **45%** |
| Ydy'r YOT yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i weithredu dedfrydau allan-o-lys? | 67% |

**A yw argymhellion yr YOT yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi eu personoli i'r plentyn gan gynorthwyo penderfyniadau ar y cyd?**

Roedd yr argymhellion a wnaed gan yr YOS yn briodol a chymesur mewn 9 allan o 11 o achosion. Mewn bron i ddau achos allan o dri, ystyriwyd dealltwriaeth y plentyn o'r drosedd ac a oeddent yn cydnabod cyfrifoldeb neu beidio, ac mewn bron i ddau achos allan o dri, roedd yr YOS yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i benderfynu'r OOCD.

Mae'n gadarnhaol bod rheolwyr achos, mewn 8 allan o 11 achos, wedi sicrhau bod y plentyn a'r rhieni / gofalwyr yn deall goblygiadau derbyn dedfryd OOCD.

Fodd bynnag roedd diffygion difrifol gyda chofnodi priodoldeb a'r rhesymau am benderfynu'r dedfrydau, gyda dim ond 2 allan o'r 11 achos yn cwrdd â'n safonau. Yn gyffredinol, dim ond mewn 5 allan o'r 11 achos oedd argymhellion yr YOS yn gwneud

23 Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, a roddir mewn band sgorio ac sydd mewn teip tywyll yn y tabl. Ewch i Atodiad 2 am fwy o fanylion.

defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi eu personoli i'r plentyn, ac felly'n cefnogi penderfyniadau ar y cyd.

**Ydy'r YOT yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i weithredu dedfrydau allan-o-lys?**

O'r tri achos lle'r oedd angen i reolwyr achos adrodd ar gynnydd i'r heddlu, roedd dau wedi eu cwblhau'n amserol. Ym mhob un o'r tri achos, roedd staff wedi talu sylw digonol i gydymffurfio gyda, a gorfodi, yr amodau. Yn gyffredinol, mewn dau allan o'r tri achos perthnasol, roedd yr YOS wedi gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i weithredu'r OOCD.

# Atodiad 1: Methodoleg

### Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safonau yr arolygwn wasanaethau troseddwyr ifanc yn eu herbyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig sydd, yn eu tro, yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad. Dyluniwyd y safonau hyn i annog gwelliannau yn ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sydd wedi troseddu.[24]

Crynhoir methodoleg yr arolygiad isod, wedi'i chysylltu i'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar dystiolaeth yn erbyn y safonau, cwestiynau allweddol a phrociau yn ein fframwaith arolygu.

### Parth un: darparu sefydliadol

Roedd yr YOS wedi cyflwyno tystiolaeth ymlaen llaw ac roedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant (Cadeirydd Bwrdd Rheoli YOS Caerdydd) a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (Is-gadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOS) wedi rhoi cyflwyniad ar y meysydd canlynol:

- Sut y mae'r trefniadau darparu sefydliadol yn y maes hwn yn sicrhau bod gwaith eich YOS mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd bywyd plant sydd wedi troseddu'n cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod y prif waith maes, cynhaliwyd 28 o gyfweliadau â rheolwyr achos i'w holi am eu profiadau o hyfforddiant, datblygu, yr oruchwyliaeth gan reolwyr a'r arweinyddiaeth. Ail wythnos y gwaith maes oedd elfen ar y cyd yr arolygiad. Yn ymuno â Gwasanaeth Prawf EM oedd cyd-arolygwyr o'r heddlu, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Holwyd am faterion oedd yn codi o arolygu'r achosion. Cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd er mwyn gallu 'triongli' tystiolaeth a gwybodaeth. I gyd cynhaliwyd 46 o gyfarfodydd gan gynnwys rhai gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Barnwyd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn yn erbyn nodweddion ein system sgorio.[25]

### Parth dau: dedfrydau gan y llys

Cwblhawyd y gwaith asesu achosion dros gyfnod o wythnos gan edrych ar ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd 60% o'r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a dderbyniodd ddedfrydau gan y llys rhwng chwech a naw mis yn gynharach, er mwyn gallu gweld gwaith ar asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle'r oedd angen, roeddem hefyd yn cyfweld pobl eraill a gafodd ran sylweddol yn yr achos. Mewn rhai achosion unigol, roedd cyd-arolygwyr o'r heddlu, iechyd, addysg neu ofal cymdeithasol wedi gwneud ymholiadau pellach yn ystod ail wythnos y gwaith maes.

Edrychwyd ar 18 o ddedfrydau gan y llys. Roedd maint y sampl wedi'i benderfynu i sicrhau lefel hyder o 80% (gyda 'ffin ansicrwydd' o 5) gan sicrhau bod y cymarebau o ran rhywedd, dedfryd neu fath o ddedfryd, y risg o niwed difrifol, a'r risg i ddosbarthiadau diogelwch a lles, yn cyfateb i'r rhai yn y boblogaeth berthnasol.

---

[24] Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

**Parth tri: dedfrydau allan-o-lys**

Cwblhawyd y gwaith asesu achosion dros gyfnod o wythnos gan edrych ar ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd 40% o'r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a dderbyniodd OOCD dri i bum mis yn gynharach. Roeddem wedyn yn gallu edrych ar waith yn ymwneud ag asesu, cynllunio, gweithredu a gweithio ar y cyd. Lle'r oedd angen, roeddem hefyd yn cyfweld pobl eraill a gafodd ran sylweddol yn yr achos. Mewn rhai achosion unigol, roedd cyd-arolygwyr o'r heddlu, iechyd, addysg neu ofal cymdeithasol wedi gwneud ymholiadau pellach yn ystod ail wythnos y gwaith maes.

Archwiliwyd 11 o achosion OOCD. Roedd maint y sampl wedi'i benderfynu i sicrhau lefel hyder o 80% (gyda 'ffin ansicrwydd' o 5) gan sicrhau bod y cymarebau o ran rhywedd, dedfryd neu fath o ddedfryd, y risg o niwed difrifol, a'r risg i ddosbarthiadau diogelwch a lles, yn cyfateb i'r rhai yn y boblogaeth berthnasol.

Mewn rhai rhannau o'r adroddiad hwn, efallai fod data wedi'i rannu'n is-samplau llai, er enghraifft achosion bechgyn / merched. Os felly, gallai 'ffin ansicrwydd' canfyddiadau'r is-samplau fod yn uwch na phump.

# Atodiad 2: Canlyniadaur arolygiad

Yn yr arolygiad hwn, bu'r arolygwyr yn edrych yn fanwl ar sampl o 18 dedfryd gan y llys a 11 dedfryd allan-o-lys. Ym mhob un o'r achosion hynny, arolygwn yn erbyn pedair safon: asesu, cynllunio a gweithredu / darparu. Ar gyfer dedfrydau gan y llys, edrychwn ar adolygu; ac ar gyfer dedfrydau allan-o-lys, edrychwn ar weithio ar y cyd â'r heddlu. Ar gyfer pob safon, mae arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys a ddadansoddwyd ddigon ar ffactorau'n gysylltiedig â throseddu; i ba raddau oedd y plant yn rhan o'r asesu a'r cynllunio; ac a wnaed digon i asesu lefel y risg o achosi niwed, ac i reoli'r risg honno.

Er mwyn sgorio'n 'Rhagorol' ar y rhannau ar ddedfrydau gan y llys neu ddedfrydau allan-o-lys, rhaid i 80% o'r achosion a ddadansoddwn gael eu hasesu i fod yn ddigonol. Os bernir bod rhwng 65% a 79% yn ddigonol, rhoddir sgôr 'Da', ac os bernir bod rhwng 50% a 64% yn ddigonol, rhoddir sgôr o 'Angen Gwella'. Yn olaf, os bernir bod llai na 50% yn ddigonol, sgoriwn y gwaith hwn yn 'Anfoddhaol'.

Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn seiliedig ar sgôr isaf y cwestiynau allweddol, gan gydnabod fod pob cwestiwn allweddol yn rhan annatod o'r safon. Felly os rhoddwn sgôr 'Da' i dri chwestiwn allweddol ac 'Anfoddhaol' i un cwestiwn, y sgôr ar draws y safon honno fydd 'Anfoddhaol'.

| Band isaf (lefel cwestiynau allweddol) | Sgôr (safon) |
|---|---|
| **Lleiafrif: <50%** | **Anfoddhaol** |
| **Rhy ychydig: 50-64%** | **Angen Gwella** |
| **Mwyafrif rhesymol: 65-79%** | **Da** |
| **Mwyafrif sylweddol: 80%+** | **Rhagorol** |

Defnyddir rheolau sgorio ychwanegol i greu sgôr YOT cyffredinol. Mae pob un o'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa rhwng 0-3 lle mae 'Anfoddhaol' = 0; 'Angen Gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Bydd adio'r sgoriau hyn at ei gilydd yn rhoi cyfanswm sgôr yn amrywio rhwng 0–36, sy'n cael ei fandio i greu sgôr cyffredinol fel a ganlyn:

- 0–6 = Anfoddhaol
- 7–18 = Angen Gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol

# 1. Darparu sefydliadol

| Safonau a chwestiynau allweddol | Sgôr |
|---|---|
| **1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth**<br>Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth yr YOT yn cynorthwyo a hyrwyddo darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant. | **Anfoddhaol** |
| 1.1.1. A oes gweledigaeth a strategaeth leol glir ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant? | |
| 1.1.2. Ydy'r trefniadau partneriaeth yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth effeithiol? | |
| 1.1.3. Ydy arweinyddiaeth yr YOT yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth effeithiol? | |
| **1.2. Staff**<br>Mae staff yr YOT yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant. | **Anfoddhaol** |
| 1.2.1. Ydy'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant? | |
| 1.2.2. Ydy sgiliau staff yr YOT yn cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant? | |
| 1.2.3. Ydy'r oruchwyliaeth o waith yn cynorthwyo gyda darparu a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel? | |
| 1.2.4. Ydy'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu'n gynhwysfawr ac ymatebol? | |
| **1.3. Partneriaethau a gwasanaethau**<br>Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau ymatebol, wedi eu personoli ac o ansawdd uchel ar gael i'r holl blant. | **Anfoddhaol** |
| 1.3.1. A wneir dadansoddiad trylwyr a diweddar o broffiliau'r plant i sicrhau bod yr YOT yn gallu darparu gwasanaethau wedi'u targedu'n dda? | |
| 1.3.2. A oes gan bartneriaeth yr YOT fynediad at wasanaethau ac ymyriadau o ran nifer, ystod ac ansawdd i ateb anghenion yr holl blant? | |
| 1.3.3. A oes trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel? | |
| **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** | **Anfoddhaol** |

| | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael a chyfleusterau priodol yn eu lle i gynorthwyo gyda darparu gwasanaeth ymatebol, wedi'i bersonoli o ansawdd uchel i'r holl blant. | |
| 1.4.1. Ydy'r polisïau a'r canllawiau angenrheidiol yn eu lle i gynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd sy'n ateb anghenion yr holl blant? | |
| 1.4.2. Ydy amgylchedd(au) darparu'r YOT yn ateb anghenion yr holl blant fel bod staff yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd? | |
| 1.4.3. Ydy'r systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn cynorthwyo'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd sy'n ateb anghenion yr holl blant? | |
| 1.4.4. A wneir defnydd effeithiol o ddadansoddi, tystiolaeth a dysgu i annog gwelliannau? | |

## 2. Dedfrydau gan y llys

| Safonau a chwestiynau allweddol | Sgorio a % ydy |
|---|---|
| **2.1. Asesu**<br>Mae'r asesu'n gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | **Anfoddhaol** |
| 2.1.1. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 33% |
| 2.1.2. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 33% |
| 2.1.3. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 44% |
| **2.2. Cynllunio**<br>Mae'r cynllunio'n holistig, yn gwneud defnydd da o wybodaeth ac wedi'i bersonoli i'r unigolyn, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | **Anfoddhaol** |
| 2.2.1. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 44% |
| 2.2.2. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 11% |
| 2.2.3. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 17% |

| **2.3. Gweithredu a darparu**<br>Darperir gwasanaethau personol, cydgysylltiedig o ansawdd a gyda ffocws da i annog cyfranogiad a chynorthwyo'r plentyn. | **Anfoddhaol** |
|---|---|
| 2.3.1. Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu. | 75% |
| 2.3.2. Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 44% |
| 2.3.3. Ydy gweithredu a darparu gwasanaethau'n gymorth effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 39% |
| **2.4. Adolygu**<br>Mae adolygu cynnydd yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | **Anfoddhaol** |
| 2.4.1. Ydy'r adolygu'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 33% |
| 2.4.2. Ydy'r adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 22% |
| 2.4.3. Ydy'r adolygu'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 14% |

## 3. Dedfrydau allan-o-lys

| Safonau a chwestiynau allweddol | Sgôr a % ydy |
|---|---|
| **3.1. Asesu**<br>Mae'r asesu yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | **Anfoddhaol** |
| 3.1.1. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 82% |
| 3.1.2. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 18% |
| 3.1.3. Ydy'r asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 27% |

| 3.2. Cynllunio<br>Mae'r cynllunio'n holistig, yn gwneud defnydd da o wybodaeth ac wedi'i bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. | Anfoddhaol |
|---|---|
| 3.2.1. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 73% |
| 3.2.2. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 0% |
| 3.2.3. Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 43% |

| 3.3. Gweithredu a darparu<br>Darperir gwasanaethau cydgysylltiedig wedi eu personoli o ansawdd a gyda ffocws da i gynorthwyo ac annog cyfranogiad y plentyn. | Anfoddhaol |
|---|---|
| 3.3.1. A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu? | 45% |
| 3.3.2. A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 14% |
| 3.3.3. A yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 29% |

| 3.4. Gweithio ar y cyd<br>Mae gweithio ar y cyd â'r heddlu'n cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi eu personoli ac o ansawdd uchel. | Anfoddhaol |
|---|---|
| 3.4.1. A yw argymhellion yr YOT yn gwneud defnydd da o wybodaeth a dadansoddi ac wedi eu personoli i'r plentyn gan gynorthwyo penderfyniadau ar y cyd? | 45% |
| 3.4.2. Ydy'r YOT yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i weithredu dedfrydau allan-o-lys? | 67% |

# Atodiad 3: Geirfa

| | |
|---|---|
| **AssetPlus** | Offeryn fframwaith asesu a chynllunio wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i weithio gyda phlant sydd wedi troseddu neu mewn perygl o droseddu, sy'n adlewyrchu'r ymchwil a'r ddealltwriaeth bresennol o'r hyn sy'n gweithio gyda phlant. |
| **Penderfyniad cymunedol** | Defnyddir hwn ar gyfer troseddau lefel isel tro cyntaf yn aml, lle mae cytundeb anffurfiol, a thrwy gynnwys y dioddefwr yn aml, ar ba benderfyniad i'w wneud ynghylch y trosedd. Mae penderfyniad cymunedol yn derm cyffredinol; yn ymarferol defnyddir nifer o dermau lleol gwahanol i olygu'r un peth. |
| **Dedfrydau gan y llys** | Y ddedfryd a roddir gan y llys. Mae enghreifftiau o ddedfrydau gan y llys yn cynnwys gorchymyn atgyfeirio, gorchymyn adsefydlu ieuenctid a gorchymyn cadw a hyfforddi. |
| **Amddiffyn plant** | Gwaith i sicrhau bod popeth rhesymol wedi'i wneud i leihau'r risg, gymaint â phosib, bod plentyn yn cael niwed sylweddol. |
| **EOTAS** | Addysg Heblaw yn yr Ysgol: mae'n cynnwys pob math o addysg sy'n digwydd y tu allan i amgylchedd ffurfiol yr ysgol. |
| **Gorfodi** | Camau a gymerir gan reolwr achos os yw plentyn yn methu â chydymffurfio â'r camau gofynnol mewn dedfryd gymunedol neu drwydded. Gall gorfodi fod yn gosb neu'n gymhelliad. |
| **ETE** | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu a rhagolygon cyflogaeth plentyn yn y dyfodol. |
| **FTE** | Troseddwr tro cyntaf: plentyn sydd, am y tro cyntaf, yn derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol statudol (rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad ieuenctid amodol, neu euogfarn). |
| **Awdurdod lleol** | Mae timau YOT yn aml iawn yn dîm mewn awdurdod lleol penodol. |
| **MOSOVO** | Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Throseddwyr Treisgar drwy dîm heddlu arbenigol cydgysylltiedig. |
| **NEET** | Plant nad ydynt mewn unrhyw fath o addysg, hyfforddiant na chyflogaeth llawn na rhan amser. |
| **Dedfrydau allan-o-lys** | Dedfryd ar gyfer trosedd lefel isel fel arfer, lle na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd, drwy benderfyniad cymunedol, rhybuddiad ieuenctid neu rybuddiad ieuenctid amodol. |
| **Wedi'i bersonoli** | Mae dull wedi'i bersonoli'n un lle mae'r gwasanaeth yn cael ei deilwrio i ateb anghenion unigolion gan roi |

| | |
|---|---|
| | gymaint o ddewis a rheolaeth â phosib i bobl dros y cymorth y maen nhw'n ei dderbyn. Defnyddiwn y term hwn i gynnwys ffactorau amrywiaeth. |
| **Risg o Niwed Difrifol** | Mae Risg o Niwed Sylweddol (ROSH) yn derm a ddefnyddir yn AssetPlus. Mae pob achos yn cael ei ddosbarthu fel un gyda risg isel, canolig, uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol i eraill. Mae Gwasanaeth Prawf EM yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu ond yn defnyddio'r term mwy cyffredinol 'risg o niwed' wrth gyfeirio at y dadansoddiad a ddylai gael ei wneud i benderfynu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu i wahaniaethu rhwng pa mor debygol fydd rhywbeth o ddigwydd, ac effaith / difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod Risg o Niwed yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr ifanc hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o effaith / sy'n llai difrifol yn debygol. |
| **Gorchymyn atgyfeirio** | Gorchymyn llys adferol y gellir ond ei roi pan fydd y plentyn gerbron y llys yn pledio'n euog, a lle nad yw'r trothwy ar gyfer gorchymyn adsefydlu ieuenctid wedi'i gwrdd. |
| **Diogelu** | Mae diogelu'n derm ehangach nag amddiffyn plant ac yn cynnwys hybu iechyd a datblygiad y plentyn a sicrhau bod eu hanghenion lles cyffredinol wedi'u hateb. |
| **Diogelwch a lles** | Mae AssetPlus wedi disodli'r broses o asesu statws bregus drwy ddull holistig o ystyried pryderon am ddiogelwch a lles plentyn. Fe'i diffinnir fel "...canlyniadau lle gallai ymddygiad neu amgylchiadau personol neu weithredoedd y person ifanc neu ddiffyg gweithredu gan eraill amharu ar ddiogelwch a lles y person ifanc" (Canllawiau AssetPlus, 2016). |
| **Rhybuddiad ieuenctid** | Rhybuddiad y mae plentyn yn ei dderbyn ar ôl cyfaddef i drosedd a lle na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd. |
| **Rhybuddiad ieuenctid amodol** | Fel gyda rhybuddiad ieuenctid ond gydag amodau y mae'n ofynnol i'r plentyn gydymffurfio â nhw am y tri mis nesaf. Gallai peidio â chydymffurfio arwain at erlyn y plentyn am y trosedd gwreiddiol. |
| **YOT/YOS** | Defnyddir y term Tîm Troseddwyr Ifanc yn *Neddf Trosedd ac Anrhefn 1998* i ddisgrifio tîm aml-asiantaethol sy'n ceisio lleihau troseddu gan bobl ifanc. Gelwir timau YOT wrth nifer o wahanol enwau fel y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (YJS), y gwasanaeth troseddwyr ifanc (YOS) ac enwau cyffredinol eraill i ddisgrifio eu rôl leol ehangach gyda darparu gwasanaethau i blant. |
| **Bwrdd Rheoli'r YOT/YOS** | Mae Bwrdd Rheoli'r YOT yn dal yr YOT i gyfrif i sicrhau ei fod yn cyflawni'r prif nod o atal troseddu gan blant. |

| | |
|---|---|
| **Gorchymyn adsefydlu ieuenctid** | Dedfryd gymunedol gyffredinol gyda gofynion a osodir gan y llys (e.e. gofyniad goruchwylio, neu i wneud gwaith di-dâl). |
| **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid** | Corff llywodraeth sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori gweinidogion ar ba mor effeithiol yw'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r YJB yn darparu grantiau a chanllawiau i dimau troseddwyr ifanc. |

Arolygiaeth Prawf EM

HM Inspectorate of Probation
1 Bridge Street West
Civil Justice Centre
Manchester
M3 3FX

ISBN: 978-1-84099-909-9